www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 518
Rhagfyr
2023

# Codi Calon yng nghanol Gaeaf Noethlwm

Mae'r gaeaf wedi cyrraedd go iawn ac wrth i ni baratoi rhifyn mis Rhagfyr yr Eco, mae cyffro ac ysbryd y Nadolig yn dechrau cyrraedd dyffryn Peris yn ara bach (yn enwedig os ydach chi wedi bod am drip i weld addurniadau Fron Goch!) Mae'r byd yn lle garw iawn ar hyn o bryd, ydi pawb arall yn ei chael hi'n anoddach meddwl am ddathliadau Dolig gyda gymaint o ofid am ddioddef, rhyfel a chasineb yn y byd?



Gweld hysbys gan dafarn Glyntwrog, Llanrug yn cynnig powlenaid o gawl a thocyn o fara am ddim i bensiynwyr y pentref yn wythnosol dros y gaeaf wnaeth ysbrydoli ein clawr ar gyfer mis Rhagfyr. Dyna gymwynas garedig gan gwmni lleol.

Does dim angen edrych yn bell am gymwynaswyr, gwirfoddolwyr a charedigion eraill yn ein bro. Mae unigolion arbennig yn ein pentrefi wedi eu henwebu gan eu cymunedau am wobrau Sêr Cymunedol, Adra, sef Dion a Rich o Ddeiniolen ac Eric Baylis o Lanberis.

A hithau'n aeaf anodd arall gyda chost popeth mor uchel a phres yn brin, cofiwch bod cymorth ar gael yn lleol drwy Gynllun Porthi Pantri Llanrug (clercllanrug@gmail.com) neu Fanc Bwyd Arfon yn Cibyn (01286 673355).

Mae'r Cynghorydd Beca Brown wedi paratoi rhestr o rifau cyswllt os yn chwilio am gymorth gyda cynhesu'r cartref, biliau'r tŷ, bwyd, llesiant a iechyd meddwl neu help i fusnesau: Advicelink Cymru: 0800 7022020; Cyngor ar Bopeth: 0808 250 5700; Galw Gwynedd: 01766 771 1000.

Gobeithio y byddwch yn gallu gofalu am eich hunain a phawb o'ch cwmpas dros y gaeaf.







**Dymuniadau da iawn i bawb dros y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i chi.**





20

## Yn y rhifyn hwn:


- Ail agor Parc Dudley, Waunfawr – **tud 5**
- Chwilota – gohebwyr pêl-droed y 1880au – **tud 10**
- Garddio'r gaeaf – **tud 26**
- Osian yn bencampwr beicio mynydd iau Cymru – **tud 28**


*Elin Enfys*

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**




- Eisteddfod Ysgol Brynrefail – **tud 8**


8



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Y swydd uchod yn wag. Croeso i unrhyw un gysylltu efo'r Cadeirydd os fyddech efo diddordeb yn y swydd.

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Planhigion.** Yn ôl arolwg gan Erddi Botaneg Kew mae 45% o blanhigion y byd dan fygythiad. Casglwyd gwybodaeth gan dros 200 o wyddonwyr o 30 gwlad wahanol i gyrraedd y casgliad.
- **Pêl-droed.** Mae Pencampwriaeth Ewrop yn 2028 i'w chynnal ar y cyd rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r Deyrnas Unedig. Bydd rhai o'r gemau'n cael eu chwarae yn Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd – ond ni cheir defnyddio ei enw am fod Cymdeithas Pêl-droed Ewrop yn gwahardd defnyddio hysbyseb fel enw ar stadiwm.
- **Peint.** Mae John May o Surrey wedi gwario £8,000 i ennill sialens, sef yfed 2,000 o beintiau o gwrw mewn 200 diwrnod. Mae wedi bod yn yfed 10 peint y diwrnod, cyfanswm o 360,000 o galoriau. Cyfaddefodd nad oedd yn dda iawn i'w iau, gan argymell na ddylai neb arall geisio cwblhau'r sialens.
- **Coeden.** Mae castanwydden bêr sy'n 484 mlwydd oed ym Mharc Acton, Wrecsam wedi ei dewis yn 'Goeden y Flwyddyn' gan y Woodland Trust.
- **Penblwydd.** Mae can mlynedd ers i Walt Disney a'i frawd, Roy, sefydlu cwmni 'Disney Brothers Cartoon Studio' – a rhoi cymaint o bleser i filoedd o blant a phobl gyda'u ffilmiau.
- **Ci.** Bu farw'r ci hynaf yn y byd. Roedd Bobi, ci trin da byw ym Mhortiwgal yn 31 oed. Roedd yn bosib cadarnhau ei oedran oherwydd bod Portiwgal yn cadw bas-data o bob ci yn y wlad.
- **Enw.** Mae cyfraith gwlad yn Sbaen yn gwahardd cofrestru mwy na dau enw bedydd. Dyna pam y cafodd y Dug Fernando Fitz-James Stuart a'i wraig Sofia Palazuelo eu gwrthod pan geisiwyd cofrestru eu merch – Sofia Fernanda Dolores Cayetana Teresa Angela de la Cruz Micaela del Santisimo Sacramento del Perpetuo Socorro de la Santisima Trinidad y de Todos los Santos. Y gobaith oedd ei henwi ar ol ei nain, ond nid yw gofod yn caniatau enwi honno hefyd.
- **Sgïo.** Oherwydd y posibilrwydd o ddiffyg eira yng nghanolfannau sgio Ewrop dros y gaeaf sydd i ddod, mae golygon yn troi tuag at Ogledd America. Mae cynnydd aruthrol wedi bod mewn ymholiadau am wyliau sgio yno, a chwmniau'n paratoi ar gyfer archebu mwy o awyrennau i gario sgiwyr o Ewrop dros Fôr Iwerydd – ac ychwanegu at yr union achosion pam fod diffyg eira yn Ewrop.
- **Brenin.** Mae naw teulu brenhinol ym Malaysia, a mis Ionawr bydd brenin newydd – Swltan Ibrahim Iskandar – yn cychwyn ar dymor pum mlynedd cyn i'r awennau gael eu trosglwyddo yn 2029 i aelod o'r wyth teulu arall. Seremonïol yw ei swydd, ond mae'n cael ei gydnabod fel gwarchodwr y grefydd Islam a thraddodiadau Malay.
- **Cleddyf.** Mae cleddyf Bonnie Prince Charlie yn dychwelyd i'r Alban am y tro cyntaf ers 300 mlynedd, ac yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Perth. Onid yw'n bryd i rai o eitemau hanesyddol Cymru gael eu dychwelyd yma hefyd?
- **Pabi.** Roedd y Lleng Prydeinig yn gwerthu pabi di-blastig eleni am y tro cyntaf, a da hynny. Ond pam fod angen tair blynedd o ymchwil i greu pabi papur?

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Ionawr | 1 Rhagfyr (sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer) | 15 Rhagfyr (sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer) |
| Chwefor | 12 Ionawr 2024 | 26 Ionawr 2024 |
| Mawrth | 9 Chwefror | 23 Chwefror |



**Annwyl Ddarllenwyr,**
**CLWB ERYRI**
Mae Clwb Eryri wedi cyfarfod ddwywaith ac wedi croesawu aelodau newydd. Bydd cyfarfodydd yn Y Ganolfan, Llanberis am 7.30 y.h ar nos Wener cyntaf y mis rhwng Hydref a Chwefror.

Ym mis Hydref roedd y Dr Huw Roberts wedi rhoi sgwrs ddifyr iawn am hanes ei daid yn forwr masnach ac a fu drwy'r Rhyfel Mawr, ac ym mis Tachwedd cafwyd hanes Llyfrau Ceiniog Humphries, Caernarfon gan Meic Cox. Mae'r cyfarfod nesaf ar Rhagfyr yr 8fed (nid y 1af- sef ar AIL nos Wener y mis y tro yma) gyda Cadi Iolen yn siarad.

Estynnir croeso i aelodau newydd. Os am unrhyw fanylion pellach cysylltwch â Robin Parry. robinpar@btinernet.com

Yn gywir
Robin Parry

**Annwyl Banel Golygyddol,**
Ar ran Gymdeithas Wyddonol Gwynedd, a fyddai modd cynnwys gwybodaeth am y cyfarfodydd (misol) canlynol yng ngholofn digwyddiadau Eco'r Wyddfa os gwelwch yn dda.

Costau pryder amenedigol a defnyddio'r gwasanaeth iechyd: Dadansoddiad economeg iechyd.
Llinos Spencer (Prifysgol Bangor)
7.30 Nos Lun Rhagfyr 11 2023
Ystafell 1.07 Canolfan Bedwyr (Neuadd Dyfrdwy), Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2DG
Diolch a phob hwyl,
Deri Tomos
Ysgrifennydd
Sychnant, Llanllechid (01248 601176)


NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd DDA
I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth PAWB yn
GAREJ ARFON
DEINIOLEN
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn - (01286) 872304

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddiwrth pawb yn
WELDPAR
CYMRU
Canolfan offer weldio
+44 (0)1286 650720
+44 (0)7836 575330

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth Dylan a'r staff
SIOP CHIPS TEGFAN
Y SGWÂR LLANRUG
(01286) 671211

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddiwrth Nia yn siop harddwch
HAIRLINES
Stryd Fawr, Llanberis
870328

DIOLCH
i drigolion yr ardal am bob cefnogaeth a chymorth trwy gydol y flwyddyn
POB HAPUSRWYDD A LLEWYRCH I CHI DROS GYFNOD Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD GAN Y CYNGHORWYR:



Menna Trenholme – Ward Bontnewydd
Berwyn Parry Jones – Ward Cwm y Glo
Beca Brown – Ward Llanrug
Iwan Huws, Sasha Williams – Ward Bethel a'r Felinheli



Edgar Wyn Owen – Ward Waunfawr
Kim Jones – Ward Llanberis
Elfed Williams – Ward Deiniolen

Plaid Cymru
Party of Wales
@Plaid_Gwynedd
@PlaidCymruGwynedd
www.plaidgwynedd.cymru

# Age Cymru Gwynedd a Môn yma i chi ar gyfer tymhorau'r hydref a'r gaeaf

Rydym bellach yn paratoi at dymhorau'r hydref a'r gaeaf drwy ein hymdrechion i hyrwyddo llesiant ffisegol, emosiynol ac ariannol ein trigolion leol. Mae yna weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal o'r Cartref yn Bontnewydd yn cynnwys clybiau cinio, sesiynau crefftau ac arlunio, technoleg gwybodaeth a chlwb whist a dominos.

Rydym oll yn byw mewn cyfnod heriol o ran cynnydd sylweddol mewn costau byw yn cynnwys costau ynni a chynhesu'r cartref. Mae ein gwasanaeth cyngor a gwybodaeth yn parhau i fod ar gael. Unwaith yn rhagor eleni rydym wedi llwyddo i dderbyn nawdd gan Age Uk ac EON er mwyn ymgymryd ag archwiliadau ynni yn y cartref gan adnabod a rhannu dulliau o arbed ynni ac i ddarparu offer er mwyn gwneud y cartref yn fwy ynni effeithlon.




Cofiwch hefyd fod ein gwasanaeth Pryd yn y Cartref ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda phryd bwyd maethlon poeth yn cael ei gludo i'ch cartref am £7 am brif gwrs NEU £10 am brif gwrs a phwdin. Mae Caffi'r Cartref ar agor hefyd o ddydd Llun i ddydd Gwener felly galwch draw am baned a sgwrs neu am bryd poeth neu de prynhawn godidog! Unwaith eto eleni byddwn yn cynnig sesiwn Croeso Cynnes yn Y Cartref yn wythnosol pob dydd Llun lle fydd cawl / lobscows a phaned ar gael am £4 y pen.

Ar brynhawn Iau, 23ain o Dachwedd 2023, byddwn yn cynnal ein Ffair Nadolig flynyddol yn Y Cartref Bontnewydd. Bydd hwn yn gyfle gwych i wneud ychydig o siopa Nadolig a chael cyfle i gymdeithasu dros mins pei a phaned. Cysylltwch gyda ni os oes gennych ddiddordeb cael stondin yn y ffair.

Byddwn hefyd yn mynd ati eto eleni i gynnal cinio dathlu'r Nadolig yn Y Cartref Bontnewydd. Bydd cinio 3 cwrs am £20 y pen fydd ar gael ar ddydd Iau 30ain o Dachwedd 2023, ac ar ddydd Gwener y 1af, Mercher y 6ed, Gwener yr 8fed, Iau y 14eg, Gwener y 15fed a dydd Mecher yr 20fed o Ragfyr 2023. Mae yna grwpiau eisoes wedi cychwyn archebu byrddau felly peidiwch â gadael hi rhy hwyr cyn cysylltu gyda ni i drefnu eich dathliadau Nadolig yn 2023!

Cysylltwch gyda ni ar 01286 677 711 neu info@acgm.co.uk os am wybodaeth bellach am ein gwasanaethau neu i archebu bwrdd yn ein Caffi neu i archebu drwy'r gwasanaeth Pryd yn y Cartref!

Cadwch yn saff!

Rydym wastad yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i'n cynorthwyo felly plis cysylltwch gyda ni os ydych â diddordeb mewn gwirfoddoli gyda ni!



Age Concern 3 efo'r penawd - Criw yn mwynhau'r cinio Nadolig yn Y Cartref Bontnewydd llynedd


## Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned Age Cymru Gwynedd a Môn



Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn**, Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref

(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Cost prif gwrs yn £7 neu gost prif gwrs a phwdin yn £10 (yn cynnwys cost cludiant)**

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost megan@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

***Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)***



Gwynedd a Môn age Cymru



DMM

Dringo rwan gwaith wedyn

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb Ohonoch*

Oddiwrth pawb yn DMM

www.dmmwales.com






**BYSUS RHIWLAS**

**BYSUS BACH A MAWR**

ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati. Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**

**D. P. OWENS** RHIWLAS


www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

# WAUNFAWR

**Ail agor Parc Dudley**

Mae Parc Dudley wedi bod ar gau i'r cyhoedd ers rhai blynyddoedd bellach oherwydd nad oedd rhannau ohono'n ddiogel. Bellach mae Cyngor Gwynedd wedi gwario cryn dipyn o arian ar adnewyddu rhai o'r llwybrau, a chafwyd agoriad swyddogol ar 29ain Hydref.

Y Cynghorydd Edgar Owen oedd yn 'torri'r rhuban' ac roedd criw da o Waunfawr wedi dod yno i fwynhau crwydro'r Parc unwaith eto. Roedd yn b'nawn gwerth chweil, gyda gweithgareddau amgylcheddol megis taith adnabod mwsog, cyngor ar adeiladu bocsus nythu, blasu smwddis ffrwythau a pheintio wynebau.

Mae Jack Walmesley o dîm bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd yn awyddus i sefydlu grŵp coedwig cymunedol yn Waunfawr er mwyn sicrhau bod y Parc yn parhau mewn cyflwr da ac yn datblygu'n adnodd i'r gymuned leol. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp, cysylltwch efo Jack drwy ebost: bioamrywiaeth@gwynedd.llyw.cymru





**Cydymdeimlo**

Cofion cynnes at Sarah Marion Jones, Teras Glyn Afon sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

**Tŷ Newydd**

Croeso cynnes iawn i'r Waun i Jac a Bethan sydd wedi ymgartrefu yn Fron Hyfryd. Un o'r Parc ger Y Bala ydi Jac a Bethan yn ferch o Fethel. Gobeithio byddwch chi a'r cŵn bach yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

**Siôn Corn, Canu Carolau a Goleuo'r Goeden!**

Cofiwch ddod draw i'r Ganolfan am 5.30 pm ar 3ydd o Ragfyr i ddathlu'r Nadolig. Bydd y plant bach yn cael stori ac anrheg gan Sion Corn o 5.30pm ymlaen, yna am 6.30pm bydd canu carolau cymunedol gyda Annette Bryn Parri ar y piano, cyn goleu'r goeden Nadolig am 7.00pm.

Bydd diodydd poeth a mins peis ar gael, gyda'r elw yn mynd i Gylch Meithrin Waunfawr – dewch yn llu i gefnogi! (os ddewch chi â'ch cwpan eich hun efo chi, cewch 50c i ffwrdd o bris y baned!)







**Priodi**

Llongyfarchiadau mawr i Joshua Gilligan 3 Tai Cefn Du ar ei briodas ddiweddar gyda Anna Hargreaves. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Pen y Clip. Dymuniadau gorau i chi'ch dau i'r dyfodol.

**Cangen Plaid Cymru**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gangen ar 19eg Hydref. Y swyddogion am y flwyddyn i ddod fydd:

Alun Williams, Glandwr (Cadeirydd); Norman Williams, Llidiart Wen (Is-Gadeirydd); Iola Gruffydd, Teganedd (Ysgrifennydd); John Gwynedd, Nant (Trysorydd); Emyr Roberts, Ty'n Rardd (Is-Drysorydd); Cynrychiolwyr pwyllgor rhanbarth: Gareth Williams, Plas Bodhyfryd; Meg Elis, Glanfa.

Dyddiadau i'r dyddiadur: 18fed Ionawr – Cyfarfod gyda Liz Saville Roberts, A.S

1af Mawrth – noson Gŵyl Ddewi gyda Geraint Lovgreen

12fed Ebrill – noson gyda Bwncath.

Croesawyd y ffaith bod Sian Gwenllian AS wedi codi pwnc adeilad newydd Meddygfa Waunfawr ar lawr y Senedd yng Nghaerdydd. Gofynnodd Sian i'r Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan pam bod gohirio unwaith eto wedi bod yn y gwaith o godi adeilad addas i Feddygfa Waunfawr. Nid dyma'r tro cyntaf i'r mater gael ei godi ar lawr y Senedd. Yn anffodus, amwys oedd yr ymateb, ac mae'n ymddangos nad oes gan y Gweinidog Iechyd atebion pendant ar hyn o bryd. Bydd Sian Gwenllian yn parhau i wneud ei gorau i sicrhau bod staff Meddygfa Waunfawr yn cael adeilad addas er mwyn gallu parhau i gynnig gwasanaeth ardderchog i bobl yr ardal.



# Ysgol Waunfawr

Newyddion o'r ysgol gan Elis Griffiths (Cadeirydd y Cyngor Ysgol)

**Gwasanaeth y cofio**
Bu Blwyddyn 6 yn cynnal gwasanaeth y cofio wrth y gofeb a gwerthu pabis coch yn yr ysgol. Dyma luniau o'r plant a'r gwaith.













**UNICEF**
Casglwyd £170 tuag at achos Unicef at Gaza yn ddiweddar, drwy wisgo ein dillad ein hunain i'r ysgol.

**Gwrth-fwlio**
Bydd y plant yn gwisgo sanau gwahanol yn fuan er mwyn dathlu wythnos gwrth-fwlio. Ystyr y sanau yw dathlu ein bod i gyd yn unigryw.

**Pêl-droed merched**
Bu'r tîm pêl-droed merched yn chwarae pêl droed yn Nhreborth yn ddiweddar. Diwrnod llwyddiannus a phawb wedi mwynhau.





**Banc Bwyd Arfon**

Caglwyd 49.9kg o fwyd ar gyfer Banc Bwyd Arfon - sydd yn ddigon i fwydo 6 person am 3 diwrnod. Mae'r ysgol am greu banc bwyd parhaol drwy'r flwyddyn, fel ein bod yn gallu cynorthwyo'r gymuned.






**Sioe Mewn Cymeriad**

Cofiwch am y Sioe Mewn Cymeriad (Nadolig Ddoe a Heddiw). Rhagfyr 12fed am 6.30yh. Ticedi ar werth drwy'r ysgol.




## DINORWIG

**Rhagfyr**

Daeth yn fis olaf y flwyddyn, a ninnau'n cyfrif y dyddiau tan y Nadolig. Y plant wrth eu bodd, a'r rhestr anrhegion yn cynyddu o ddydd i ddydd. Does ond gobeithio y byddant yn derbyn rhai o'r holl anrhegion sydd ar eu rhestr. Mae bywyd yn anodd i sawl teulu yn yr ardal bellach, a chostau byw yn ddrud iawn.

**Tywydd**

Prin fu'r eira ddechrau'r gaeaf, a dim ond cap bychan gwyn ambell i ddiwrnod ar gopa'r Wyddfa. Ond mae'r glaw bron iawn wedi bod yn ddibaid.

**Trafnidiaeth**

Mae hon yn broblem yma yn Ninorwig ers sawl blwyddyn bellach, ac yn anffodus, mae'n ymddangos mai gwaethygu a wna. Byddai o gymorth pe bai'r ychydig fysus sy'n cyrraedd yma yn rhoi arwyddion cywir ar eu blaenau. Yn aml y daw bysus yma gyda 'Pen y Pass' wedi ei osod arnynt! Pwy tybed sy'n gyfrifol am y camgymeriadau hyn?

**Post**

Mae pris stampiau wedi codi unwaith eto, ond nid yw'r gwasanaeth yn adlewyrchu hynny. Mae'n ymddangos nad yw'r swyddfa yng Nghaernarfon yn anfon y post yma'n ddyddiol bellach, a'r rheswm a gafwyd oedd fod cyn lleied o lythyrau yn cael eu cyfeirio i Ddinorwig fel nad oes pwrpas eu danfon yn ddyddiol.

**Parcio**

Mae'r lôn o'r briffordd i dai Bro Elidir wedi troi'n faes parcio, ac yn creu problemau i ddeiliaid y tai fedru cyrraedd drws y tŷ. Cerbydau a faniau mawr sydd fel arfer yn creu'r broblem. Cafwyd un achos yn ddiweddar o ambiwlans yn methu cyrraedd un tŷ oherwydd na allai ddreifio heibio un o'r cerbydau mawr oedd wedi parcio yma.

**Gwasanaethau**

Mae gwasanaethau i ardal Dinorwig a Deiniolen yn parhau i'w cynnal yn Nhŷ Elidir, a rhaid canmol y sefyllfa: mae'r ystafell yn glyd, yn gynnes ac yn gysurus. Er hynny, chwith meddwl fod y capeli i gyd wedi cau; ac eto, rhaid cysidro a fuont erioed yn hollol lawn. Un broblem yma yw diffyg organydd rheolaidd. Fe fu recordydd tâp gennym am gyfnod, gyda'r gwahanol donau wedi eu recordio arno. Deallwn fod posib cael tâp o'r fath o Abertawe, a buasem yn falch o dderbyn cyfarwyddyd gan unrhyw un o'r darllenwyr ynglŷn â ble i brynu offer o'r fath. Diolchwn i Mrs Nan Jones am ofalu am y canu ar hyn o bryd. Ar y Sul cyntaf o Ragfyr, sef y 3ydd, bydd gwasanaeth o garolau am 3.30. Bydd yr aelodau yn ymgynnull i ganu carolau ac estynnwn groeso cynnes i unrhyw un o'r ardal i ymuno â ni. Croeso hefyd i unrhyw blentyn neu barti o blant i gymryd rhan. Ni fydd casgliad, ond bydd paned a mins pei yn dilyn y gwasanaeth. Ar y 10fed o Ragfyr am 3.30 byd y gwasanaeth yng ngofal Dr Huw Tegid Roberts. Ni fydd gwasanaeth wedyn hyd y 1af o Ionawr 2024 pan gynhelir cyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn.

**Gwellhad**. Dymunwn adferiad iechyd llawn i bawb sydd heb fod yn dda dros y mis diwethaf.



ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Ysgol Brynrefail

**Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2023**
Ar ddydd Iau 26ain Hydref roedd hi yn ddiwrnod a hanner yma yn Ysgol Brynrefail! Pob tŷ wedi dod at ei gilydd i weithio'n galed i ennill cwpan y tŷ buddugol, yn enwedig y chweched dosbarth. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r chweched am drefnu yr Eisteddfod heb ddim trafferth ac am weithio o fore tan nos am wythnosau i gael bob dim mewn trefn. Yn ystod y dydd roedd pawb wedi cael llawer o hwyl wrth gymryd rhan yn y dawnsio disgo, parti merched, parti bechgyn, y sgets ac wrth gwrs y Parti Sbaeneg.

Roedd yr Eisteddfod y flwyddyn yma yn anhygoel! Roedd pawb wedi cael hwyl a sbri. Hefo yr hogiau yn dawnsio fel hwligans yn ei ffrogiau pinc i y genod yn gwisgo fyny fel yr hogiau. Ond doedd yr Eisteddfod ddim yn un arferol y flwyddyn yma, roedd yn werth i weld y gynulleidfa i gyd yn gwenu a chlapio ac doedd ddim cadair wag yn y neuadd. Gyda'r nos cafwyd seremoni Tlws yr Ifanc a chafodd Martha ac Alaw eu cadeirio, ac yn dilyn hyn cafwyd cystadleuaeth y parti llefaru. Yn olaf y perfformiad mawr oedd cystadleuaeth y corau. Canwyd Goleuadau Llundain a'r enillwyr oedd Eryri. Erbyn diwedd y dydd roedd pawb wedi cael eu swyno gan yr Eisteddfod.

Ar ôl mwynhau diwrnod mor wych, daeth y canlyniadau ac enillwyr Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2023 oedd ELIDIR!! Llongyfarchiadau mawr iawn gyda sgôr sylweddol o dros fil pum cant, waw! Gobeithio fod pawb wedi cael amser da ac rydym yn gobeithio cael hyd yn oed mwy o gystadleuwyr y flwyddyn nesaf! Diolch yn fawr iawn i bawb am gymryd rhan a llongyfarchiadau i bawb!
**Alaw Edwards bl9.**

Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2023. Anhygoel! Am ddiwrnod i'w gofio. Na, cywiraf fy hun, am ddiwrnod bythgofiadwy! O rieni yn crio o falchder wrth weld eu plant ar y llwyfan, yn cael eu gwobrau am ennill Tlws yr Ifanc i'r bechgyn yn dawnsio yn eu ffrogiau byr bach prydferth! Dyna beth oedd hwyl go iawn!

Mae'r Eisteddfod yn ddiwrnod a noson llawn talent, y to ifanc talentog wir yn cael dangos eu hunain (mewn ffordd dda wrth gwrs)! Canu unigol, canu côr, dawnsio, parti Sbaeneg a mwy! Ond mae'n rhaid i mi ddweud mai'r perfformiad mwyaf hwyliog a lwyddodd i gael dagrau o chwerthin yn llifo i lawr wynebau pawb oedd y parti bechgyn yn canu 'Trons dy Dad'.

Y dorf, nawr roedd hynny'n rhywbeth arall, cannoedd o bobol wedi dod i wylio disgyblion Ysgol Brynrefail, roedd y neuadd dan ei sang! Ond diolch mawr iddynt am ddod, dydi'r Eisteddfod ddim yn Eisteddfod heb dorf!

Llongyfarchiadau i Eilian am ddod yn gyntaf (eto), ond da iawn pawb a gymrodd ran yn yr holl gystadlaethau. Llongyfarchiadau i bob tŷ am greu noson mor arbennig!

Yn olaf rhaid ddweud diolch mawr i'r chweched dosbarth am wneud hyn i gyd yn bosib. Am helpu disgyblion Ysgol Brynrefail i ddatblygu hyder, a chael darganfod eu talentau. Cymrodd lawer o fynedd dwi'n siwr i ddelio hefo ni! Felly diolch enfawr i chi! Felly dewch Gwyrfai, 2024 ydi ein blwyddyn ni! Wnawn ni gynnal yr Eisteddfod orau erioed, a'i hennill! Gobeithio!
**Mercy Will**















**Cystadleuaeth Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol**
Dyma griw o enethod blwyddyn 8 fydd yn cystadlu mewn cystadleuaeth gwyddoniaeth gyfrifiadurol ddiwedd mis Tachwedd. Mi fydd y disgyblion yn cymryd rhan mewn cyfres o sialensau datrys problemau yn y byd technoleg cyfrifiadurol er mwyn ceisio bod yn bencampwyr cystadleuaeth CyberFirst UK. Pob lwc iddyn nhw a'u hathrawes Mrs Alaw Huws.



**Diwrnod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Mae cefnogi Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn hen arfer gennym bellach yn Ysgol Brynrefail. Cafwyd cyfle i bawb gefnogi trwy wisgo coch ar ddydd Gwener 20fed Hydref. Rydym yn cefnogi'r elusen yma yn flynyddol gan ein bod yn ysgol sydd yn erbyn unrhyw fath o ragfarn tuag at bobl ac yn yr achos yma yn gwrthwynebu hiliaeth o unrhyw fath.

Diolch i'r holl ddisgyblion am gefnogi'r diwrnod pwysig yma. Rydym yn falch ein bod wedi codi £369.36 ar y diwrnod i gefnogi'r elusen yma sy'n gweithio i sicrhau bod pob person waeth bynnag fo lliw ei groen yn cael ei drin yn deg ac â pharch bob amser.

**Pencampwr Canŵio Cymru**
Yn y llun fe welwch Bencampwyr Canŵio Ieuenctid Cymru ar ddiwrnod glawog iawn ym mis Hydref! Isobel Booth blwyddyn 8 yw'r ferch ar y dde yn y llun. Mae Isobel wedi llwyddo i gyrraedd Rhaglen Dalent 2023/24 sy'n profi bod ei dawn canŵio yn mynd o nerth i nerth. Da iawn Izzy!



## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd pawb i gyfarfod mis Hydref gan y llywydd, Pat Jones. Cyflwynodd siaradwr gwadd y noson sef Rhys Mwyn. Cafwyd adroddiad difyr ganddo o'i yrfa ers iddo raddio ym Mhrifysgol Caerdydd mewn Archaeoleg a chael swydd yn dilyn hynny gyda'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol. Bu hefyd am gyfnod yn ddiweddarach yn aelod o'r grŵp pop Cymraeg 'Yr Anrhefn' cyn dychwelyd i'r byd archaeolegol.

Roedd ei sgwrs yn benodol ar gadw llygaid yn agored o'n cwmpas i sylwi a chanfod hanes mewn lleoliadau ac adfeilion. Cyfeiriodd at nifer o safleoedd yng Nghaernarfon: y Swyddfa Bost lle gwelir plac ar y mur yn dynodi'r fan daeth y ffôn i'r wlad am y tro cyntaf a'r darlun o'r enwog Llew Llwyfo, enillydd y Gadair yn yr Eisteddfod sydd i'w ganfod yn Siambr y Cyngor. Bu'n olrhain hefyd hanes y Rhufeiniaid yn y dref a hanes yr hen Bafiliwn. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan y llywydd.

Cynhelir Bingo Nadolig fis nesaf a'r Cinio Nadolig Blynyddol yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis nos Iau 14eg Rhagfyr.

**Bedydd**
Fore Sul, Hydref 8fed yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, bedyddiwyd Nel Mair, merch fach Kelvin a Rhian Jones, Ty'n Buarth a chwaer Mali a Lili. Gweinyddwyd y Sacrament gan y Parch Brian Castle yn cael ei gynorthwyo gan y Warden John Jones a'r organydd oedd Lowri Prys Roberts. Y ddwy fam fedydd oedd Mali Efa Jones a Karen Williams a'r tad bedydd oedd Cemlyn Jones.




Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun-Sadwrn 6:30am i 9pm, Sul 8am i 9pm

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Cymanfa y Bêl

Dyna destun digon anghyffredin a ymddangosodd yn y wasg i ddisgrifio gêm bêl-droed, a hynny mor bell yn ôl a 1884. A'r ddau dîm oedd yn chwarae yn y 'gymanfa' hon oedd Llanberis a Bethesda. Ond nid dyma'r gêm gyntaf i dîm Llanberis ei chwarae. Cyn parhau i ddisgrifio'r ddwy gêm gynnar hyn, rhaid nodi fod Arwel Jones yn ei lyfr swmpus, llawn manylion – 'Y Darans' - yn olrhain hanes y clwb pêl-droed o gyfnod Mills-Roberts yn 1890-91, a sefydlu cynghrair bêl-droed. Mae'n nodi fod gemau 'cyfeillgar' wedi eu chwarae cyn hyn, ond yn y llyfr, croniclo hanes y clwb pêl-droed a wna wrth ddathlu canrif o'i fodolaeth.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod pêl-droed yn cael ei chwarae yn y pentref o leiaf chwe mlynedd ynghynt. Ym mis Chwefror 1884 yn y North Wales Express mae gohebydd sy'n gyfrifol am 'Football Notes', ac yn galw ei hun yn En Avant yn holi pam nad oes tim pêl-droed yn Llanberis. Ym mis Mawrth 1884 dan bennawd 'Northern Welsh Football Association' yn yr un papur ceir disgrifiadau pur fanwl o ddwy o gemau cyn-derfynol rhwng Carnarvon Athletic a Bangor F.C. (gan enwi'r holl chwaraewyr) a Denbigh a Rhyl (eto'n enwi'r holl chwaraewyr). Mae'n amlwg mai gemau cwpan oedd y rhain yn cael eu chwarae ar yr un diwrnod, a nodir mai Carnarvon Athletic fyddai'n wynebu Denbigh yn y gêm derfynol. Yr hyn sydd hefyd yn ddiddorol yw'r ffaith fod y ddau ddyfarnwr yn cael eu henwi, ond nid llumanwyr (*linesmen*) yw'r rhai sy'n rhedeg y lein ond 'umpires', ac fe'u henwir hwythau hefyd. Roedd 1,500 yn gwylio'r gêm yng Nghaernarfon – *"many of them ladies",* a 400 yn gwylio yn Ninbych.

Yna daw disgrifiadau am dair gêm arall. Ail dîm Rhyl yn erbyn y Carnarvon Colts, a'r Colts yn ennilll o bedair gôl i ddim. Does dim disgrifiad o'r gêm nac enwau'r chwaraewyr. Yr unig sylw a wneir yw *"rough game"!* Cyfartal oedd y gêm rhwng Mold a'r Coedpoeth. Ond mae'r gohebydd yn beirniadu'n llym ymddygiad ac iaith y chwaraewyr a'r cefnogwyr. Meddai, *"we regret to say that the language of some of the players was deserving of severe censure, as well as the continuous disputes that took place."* Mae'n gwrthod rhestru enwau'r chwaraewyr rhag i'r rhai di-euog o ddefnyddio iaith anweddus gael eu peintio a'r un brwsh!

Trydydd tîm o Gaernarfon, y Carnarvon Swifts, sy'n chwarae yn erbyn Llanberis, a hynny yn Llanberis. Mae'n amlwg felly fod dynion ieuanc y pentref wedi dilyn cyngor En Avant fis ynghynt, ac wedi ffurfio tîm. Yn wahanol i'r gêm yn yr Wyddgrug, cafodd y gêm hon ei chwarae yn fwy heddychlon – *"the game was pleasantly played throughout"*, gyda Llanberis yn fuddugol o bedair gôl i dair. Roedd *"a large concourse of spectators"* yn gwylio'r gêm. Yn anffodus nid yw unrhyw chwaraewr yn cael ei enwi. Mae un sylw gan y gohebydd yn rhoi syniad go dda o ddechreuad tîm Llanberis: *"The play, considering that both clubs have only recently been started… was very creditable."* Mae 'En Avant' yn nodi iddo glywed canmoliaeth i dîm Llanberis gan aelod o'r Carnarvon Druids (sef pedwerydd tîm o Gaernarfon). Mae hefyd yn nodi mai T M Jones a sgoriodd ddwy gôl i Lanberis yn erbyn y Swifts. Dyma felly un o'r chwaraewyr cyntaf i gynrychioli Llanberis mewn gêm bêl-droed.

Tybed felly ai hwn oedd y tîm a chwaraeodd yn erbyn Bethesda ym mis Ebrill ac a achosodd gryn stwr? Daw'r hanes dan newyddion Llanberis yn Y Genedl Gymreig, ac y mae'n werth dyfynnu disgrifiad y gohebydd o'r gêm: *"Yr oedd Dydd Gwener Groglith yn ddiwrnod mawr yma ar gyfrif mai ar y dydd hwnnw y cynhaliwyd cymanfa y bêl. Yr oedd hwn yn gynulliad poblogaidd, a rhaid ei fod yn foesol a chrefyddol, canys yr oedd llawer o'r cicyddion yn wŷr adnabyddus fel moesolwyr a chrefyddwyr. Yr oedd yr elfen gystadleuol yn y gymanfa hon, fel pob cymanfa arall – llanciau Bethesda yn erbyn llanciau Llanberis. Wedi rhedeg ar ôl, a cicio y bêl nes ymddigoni drwy enill y gamp; ie, a llanciau Bethesda a enillodd – darparwyd oddeutu gwyll yr hwyr i ymado, pawb i'w gartref."*

Hyd yma nid yw'r disgrifiad o'r gêm yn rhoi unrhyw awgrym fod problemau yn deillio ohoni. Ond mae'r gohebydd yn mynd ymlaen i ddatgelu beth ddigwyddodd wedyn: *"Ond yn groes i bob rheol o foneddigeiddrwydd a hunan-barch, er meddwi yn dda ar eu llwyddiant, bu raid i lanciau Bethesda gael ymlenwi yn dda o ddiod y bendro wedi hynny, a thynnu eraill i'r un brofedigaeth."* Mae'n eu cynghori i aros adref ar lan yr Ogwen os mai fel hyn y maent yn ymddwyn, neu i ddewis dathlu eu llwyddiant mewn gwesty sy'n gwerthu te, coffi neu lefrith! Y mae'n diweddu'r adroddiad ar nodyn cadarnhaol: *"Gyda hynyna o rybudd, dymunaf i gicyddion y bêl bob llwyddiant."*

Ond nid dyna ddiwedd y ffrae. Wythnos yn ddiweddarach cyhoeddwyd llythyr yn Y Genedl Gymreig gan rhywun yn galw ei hun yn J T P o Fethesda, yn gwadu yr honiad fod pêl-droedwyr Bethesda wedi cam-ymddwyn a meddwi yn Llanberis. Mae'n galw ar i ohebydd Llanberis ymddiheuro'n gyhoeddus yn rhifyn nesaf y papur. Ond ni ddaeth ymateb nac ymddiheuriad.

Efallai mai'r honiadau o feddwi yn dilyn y gêm hon a fu'n achos i gyhoeddi ganol fis Mai fod symudiad ar droed ym mhentref Llanberis *"i roddi terfyn ar chwaraeon ynfyd megis y bêl-droed, billiards a'r cardiau."* Does dim gwybodaeth am bwy oedd yn gyfrifol am "y symudiad", ond mae'n amlwg na fu'n llwyddiannus. Er hynny, ddiwedd y flwyddyn cafwyd beirniadaeth ar rai oedd yn sglefrio ar wyneb Llyn Padarn wedi iddo rewi, ac eraill yn cicio pêl ar y ddôl. Nid y sglefrio a'r cicio oedd y brif broblem, ond y ffaith eu bod yn digwydd ar ddiwrnod cynnal Gŵyl Bregethu'r Annibynwyr!

Flwyddyn wedi cychwyn chwarae pêl-droed yn Llanberis daeth Y Cloi Allan yn Chwarel Dinorwig, a chicio pêl oedd y peth olaf mae'n siwr ar feddyliau'r gweithwyr yn y cyfnod terfysglyd hwn.

**Y Cwpan Iau**

I barhau â'r thema bêl-droed, diddorol yw nodi fod timau Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel wedi ennill Cwpan Iau Gogledd Cymru, ond wedi gorfod disgwyl yn hir cyn gwneud hynny: Llanberis ddwywaith yn y 1930'au a theirgwaith yn y 1960'au a Llanrug ddwywaith yn y 1970'au; Deiniolen yn 1993-94 a Bethel yn 2001-02. Ond roedd Llanrug wedi cyrraedd y rownd derfynol ganrif yn ôl, yn 1922-23, ac mae'n debyg mai dyma flwyddyn sefydlu'r clwb. Yn 1922 y defnyddiwyd yr enw Llanrug am y tro cyntaf pan unodd dau dîm lleol a'i gilydd, sef Glasgoed Rangers a Rhythallt Comrades.

Ffurfiwyd Cynghrair Bêl-droed Eryri yn 1922, a'r timau o'r fro a ymunodd oedd Llanberis United, Ebenezer, Rhythallt Comrades a Glasgoed Rangers. Yn fuan wedyn, unodd y ddau olaf a chystadlu dan enw Llanrug yng Nghynghrair Genedlaethol Cymru – Adran 3 (Gorllewin).

Yn y tymor cyntaf hwn yn 1922-23 y cyrhaeddodd Llanrug rownd derfynol y Cwpan Iau. Eu gwrthwynebwyr yn y gêm derfynol oedd Oakenholt St David's o Fflint, gyda'r gêm yn cael ei chwarae ym Mae Colwyn. Oakenholt enillodd o bedair gôl i ddim.

Byddai'n ddiddorol darganfod ai Llanrug yw'r unig dîm i gyrraedd rownd derfynol y Cwpan Iau yn y flwyddyn y cafodd y clwb ei sefydlu. Chwi haneswyr pêl-droed gogledd Cymru – a oes ateb?

Os oes gennych ymholiad am unrhyw agwedd o hanes lleol y fro, neu unrhyw bwt o wybodaeth am gynnwys y golofn yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com






# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 20





Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Byddwn yn dod a phob math o flodau a phlanhigion i addurno ein cartrefi dros y Nadolig. Rhaid bod yn ofalus os yw cath yn rhan o'ch teulu gan fod rhai planhigion yn wenwynig i gathod. Mae blodau'r lili (sy'n gallu bod yn y tŷ unrhyw adeg o'r flwyddyn) yn hynod wenwynig i gathod. Mae blodau Nadoligaidd megis y poinsettia ychydig yn wenwynig tra gall aeron y celyn a'r uchelwydd fod yn hynod wenwynig i gath. Mae bylbiau, coesau a blodau'r amaryllis i gyd yn niweidiol i gathod. Dydy Bob ddim yn hoffi bwyd y deu-droediaid ond os yw eich cath chi yn hoffi bwyta bwyd bodau dynol byddwch ofalus. Mae nionod a garlleg yn wenwynig i gathod yn ogystal â raisins, grawnwin a siocled. Gall alcohol fod yn beryglus iddynt, hyd yn oed ychydig ddiferion, felly sychwch unrhyw ddiod feddwl sy'n cael ei golli, yn gyflym.*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl cael ei bigo gan y gwenyn a'i boenydio gan goncyr…

" Mae gen i ryw deimlad bod rhywbeth ar bawen eto. Mae'r deu-droediaid yn cuddio pethau mewn bocsys i fyny'r grisiau ac mae hi fflat owt wrthi'n coginio, sydd fel arfer yn golygu bydd mwy o ddeu-droediaid yn landio'n fy nhŷ i eto byth. Cathod a'm gwaredo na fydd yna ormod o'r rhai bach swnllyd yn landio yma, maen nhw'n ddigon i ddychryn rhywun efo'u symud sydyn a sgrechian a giglan. Dwi'n gwbod na wnawn nhw fy mrifo, ond dwi'n nerfus ac yn poeni byddan nhw'n anghofio mod i yma ac eistedd arna'i neu waeth!

Un o fy hoff lefydd i eistedd yn y tŷ yw ar silff ffenast llydan y parlwr. Dydw i ddim yn mynd yno'n aml, fel arfer mae'r drws wedi cau. Ond weithiau dwi'n gallu sleifio mewn a mwynhau edrach allan ar y byd o'm cwmpas i.

Lle i gath fawr sunsur a'i enaid i gael llonydd. Fydda'i byth yn blino edrach allan, yn enwedig pan dwi'n glyd ac yn gynnes y tu mewn yn sbïo at allan. Cofiwch chi bu'n rhaid i mi symud oddi ar y silff ffenast yn reit handi pan landiodd y deu-droediaid a llond eu hafflau o bob math o focsys a thrugareddau! Wir yr - be sy'n bod arnyn nhw? Napan wrth y bocs tân felly yn yr ystafell fyw o ddydd i ddydd, a chadw allan o'u ffordd nhw.

Pan dwi'n deffro maen nhw yn dod drwadd o'r parlwr ac mae fy mol yn falch iawn o'u gweld nhw. Siawns am swpar debyg. Dwi'n clywed sŵn y gwynt a'r glaw y tu allan ac yn falch o gael fy swper blasus arferol o'r tun bach. Mae o yn agor y drws i mi. Wnes i roi fy nhrwyn drwy'r drws cefn a sgrialu'n ôl i'r tŷ reit handi. Lot rhy wyllt i wneud beth mae'n rhaid i gath ei wneud yn yr awyr agored. Beth bynnag, gan eu bod nhw mor brysur drwadd, maen nhw'n anghofio mod i allan weithiau neu'n anghofio sbio os ydw i ar ben y cwt logs yn trio deud wrthyn nhw am fy ngadael i mewn! Weithiau dwi'n wlyb socian yn dod nôl i'r tŷ, ac mae'r ddeu-droed fach yn mynnu rhwbio fy nghot felfedaidd efo ryw ddarn o ddefnydd i geisio fy sychu! Dig'wilydd! Nid dyna'r ffordd i drin llew frenin. Dwi'n sleifio mewn i'r parlwr, gyda'r bwriad o neidio ar y silff ffenast lydan braf a sbio os oes rywun yn cerdded heibio a gwell byth cael gweld y mynyddoedd yn y pellter.

Wel pwy faga ddeu-droediaid! Allai ddim coelio fy llygaid. Maen nhw wedi gwagio'r bocsys ac mae fy hoff silff ffenast, wedi ei orchuddio efo defnydd gwyn a phob math o drugareddau. Dwi'n ystyried neidio i fyny i gael golwg pellach ond wrth i mi eistedd yno'n edrach at i fyny mae'r deu-droed mawr yn deud, 'Sbia ar y trên Bob!'

Wir yr! Mae'n symud o gwmpas fy silff ac yn gneud sŵn! Mae gen i ryw frith gof bod hyn wedi digwydd o'r blaen… Dwi'n penderfynu nad ydy fy hoff silff bellach yn lle diogel i gath fentro arni.

A'm gwaredo - mae'r deu-droediaid yma'n gwneud pethau od. Erbyn meddwl mi wnaethon nhw rwbath tebyg llynedd a llenwi'r tŷ efo bob math o drugareddau nad oeddwn i'n cael cyffwrdd ynddyn nhw. Y peth nesaf fydd yn digwydd ydy yw bod pob math o ddeu-droediaid bach a mawr yn dod yma i'w gweld nhw yn fuan.

Fel dwi wedi deud o'r blaen, mae'n anodd deall y deu-droediaid yma ond o be dwi'n cofio mi ga'i ambell anrheg o dan y goeden maen nhw wedi ei gosod ac mi fydd yma ddewis o ddau focs tân i orwedd o'u blaenau i gadw fi'n gynnes ac yn glyd.

Be fyddan nhw'n ei ddeud deudwch? O ia! Nadolig Llawen i bawb."







| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | A | W | E | L | N | O | S | Ŵ | A | M | LL | U | C | D | L | O | I | G | O |
| Y | O | B | C | CH | N | A | D | O | L | I | G | P | W | Y | A | Ŵ | Y | R | D |
| M | A | I | G | T | R | W | C | L | Y | CH | A | U | R | C | E | I | R | W | A |
| U | P | R | I | O | R | W | E | DD | M | E | W | N | P | R | E | S | E | B | W |
| N | Y | R | B | Y | S | O | R | D | D | A | W | D | N | Y | S | Y | W | P | E |
| W | C | N | L | O | I | L | D | O | G | Ŵ | O | R | DD | C | O | T | E | R | L |
| N | A | D | O | L | I | G | LL | A | W | E | N | I | CH | I | G | Y | D | O | DD |
| N | A | R | A | E | G | Ŵ | Y | L | Y | B | A | B | A | N | A | S | Y | L | I |
| A | M | O | B | L | F | D | S | NG | T | N | M | E | G | E | Y | O | N | Y | N |
| D | T | CH | P | H | RH | I | C | A | F | E | A | I | N | W | B | U | N | W | A |
| O | C | S | LL | B | E | A | FF | P | T | R | I | RH | B | R | E | M | A | G | S |
| L | E | G | Y | H | CH | Y | L | S | D | E | N | A | A | N | E | G | CH | A | B |
| I | W | U | F | PH | U | B | O | I | LL | S | DD | N | M | I | T | R | Y | D | E |
| G | A | N | O | L | G | A | E | A | F | N | O | E | TH | L | W | M | B | I | TH |
| LL | S | T | D | F | A | T | I | E | D | U | L | I | CH | L | Y | D | L | A | L |
| A | R | I | A | M | DD | R | E | G | N | A | I | W | H | S | U | C | O | P | E |
| W | A | N | P | E | R | S | E | B | N | S | G | L | A | R | D | I | B | R | H |
| E | R | O | B | R | W | I | DD | E | H | R | E | F | Y | G | R | A | E | I | E |
| N | A | N | I | D | L | O | E | LL | G | RH | T | B | A | CH | N | W | R | A | M |
| T | O | D | E | U | W | CH | FF | Y | DD | L | O | N | I | A | I | D | O | M | S |

# Chwilair - Carolau a Chaneuon Y Nadolig

- AR GYFER HEDDIW'R BORE
- BACHGEN A ANED
- CLYCHAU'R CEIRW
- DAWEL NOS
- DYMUNWN NADOLIG LLAWEN
- EBOL BYCHAN
- NADOLIG PWY A ŴYR
- O DAWEL DDINAS BETHLEHEM
- O DEUWCH FFYDDLONIAID
- O NA MAI'N DDOLIG ETO!
- PWY SY'N DWAD DROS Y BRYN?
- UN SEREN
- GANOL GAEAF NOETHLWM
- GŴYL Y BABAN
- HWIANGERDD MAIR
- I ORWEDD MEWN PRESEB
- MAIR PAID AG WYLO
- NADOLIG LLAWEN I CHI GYD

Pa garol neu gân yw eich ffefryn chi dros gyfnod y Nadolig? Pa diwn sy'n eich gwneud i chi deimlo'n llawn ysbryd yr Ŵyl? Gobeithio y gallwch ddod o hyd iddi yn y chwilair hwn.

O.N. Cofiwch mai <u>un</u> sgwâr sydd i bob llythyren ddwbl. Mwynhewch!


Nadolig Llawen i chi gyd





FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk


## Atebion i mis Tachwedd - Mamaliaid Cymru

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | O | Ch | Y | N | D | A | E | A | R | Ŷ | B | E | N | S |
| O | D | O | L | I | R | P | O | W | Ll | I | R | Dd | U | T |
| R | E | G | H | T | A | Dd | E | Th | F | N | E | Ll | B | W |
| L | Ff | R | A | Th | E | D | Ch | U | B | E | Y | Y | E | R |
| O | D | E | E | S | N | W | A | N | R | G | S | G | C | Ch |
| C | S | W | Rh | B | O | L | I | S | O | N | G | O | Ph | D |
| Y | B | I | D | N | G | R | A | D | N | I | Y | D | O | A |
| Ff | C | W | P | Y | G | Ng | E | C | W | N | F | E | Y | E |
| R | F | A | D | Ŷ | I | N | Ch | P | E | W | A | N | S | A |
| E | Y | Ph | Ll | W | Y | N | O | G | N | C | R | F | T | R |
| D | D | Y | F | R | G | I | Dd | S | H | I | N | A | L | E |
| I | R | B | Ŷ | D | C | A | R | L | W | M | O | W | U | T |
| N | F | D | E | O | C | R | E | L | E | B | G | R | M | S |
| N | O | R | G | N | E | B | N | E | D | O | G | Y | Ll | C |
| Ng | B | Ff | O | N | Ll | U | P | T | E | L | M | H | Ch | W |

- BELE'R COED
- BRONWEN
- CARLWM
- CWNINGEN
- DRAENOG
- DYFRGI
- LLŶG
- LLYGODEN BENGRON
- LLYGODEN FAWR
- LLYGODEN YR ŶD
- LLWYNOG
- MOCHYN DAEAR
- MORLO CYFFREDIN
- PATHEW
- TWRCH DAEAR
- YSGYFARNOG
- WIWER GOCH
- YSTLUM

# H R Jones (1894-1930)



Miss Eleanor Jones (Chwaer H R Jones), Miss Cassie Davies, Mr Gwynfor Evans AS.



Dr Kate Roberts, Parch D R Lewis, Cyng. Robyn Lewis.

Yn dilyn yr adroddiadau am y diweddar H R Jones yn y ddau rifyn diwethaf o'r Eco, daeth i'm cof yn fyw iawn y prynhawn arbennig hwnnw yn Neiniolen ar 3ydd Awst 1975.

Teimlwn o ganlyniad, ac o gofio i mi dynnu rhai lluniau o'r digwyddiad, y dymunwn gyflwyno ychydig o argraffiadau personol am y dathliad yn Eglwys Crist, Llandinorwig ac yn dilyn yn y fynwent ar lan bedd y diweddar H R Jones.

Dydd Sul oedd 3ydd Awst a'r achlysur yn un neilltuol iawn i dalu teyrnged i ŵr allweddol yn hanes Plaid Cymru. Roedd hynny yn amlwg o ystyried y dorf ddaeth ynghyd ac yn eu plith lu o Gymry enwog.

Mae'n amlwg i ambell un o selogion y pulpud tu allan i'r fro fod wedi sicrhau cael cyhoeddiad yn lleol er hwylustod i fynychu'r dathliad. Dyna sut cafodd Eglwys Brynrefail y fraint y Sul hwnnw o gael gwasanaeth y Parch D R Lewis, Abergele. Roedd ef wedi ei wahodd fel Cadeirydd yn y Gwasanaeth Dathlu yn Eglwys Crist Llandinorwig.

Rhaid oedd felly geisio dwyn i gof ac ymchwilio i'r cysylltiad a'r pwysigrwydd ynglyn â'r ffaith iddo ef fod â rhan amlwg yn y dathliad yn Neiniolen.

Fel myfyriwr yn Aberystwyth pan oedd yn aelod o gangen fywiog y Blaid yn ei blynyddoedd cynharaf roedd D R Lewis ymhlith y cefnogwyr mwyaf brwd a selog a fynychai Swyddfa'r Blaid yn Aberystwyth, pan ganiatai ei iechyd rhwng 1926 a 1929, i drefnu cyfarfodydd cyhoeddus.

Yn ôl J E Jones, olynydd H R Jones fel Ysgrifennydd Plaid Cymru, credir mai ef,

D R Lewis anerchodd fwyaf o'r cyfarfodydd yng Ngheredigion yn y dyddiau cynnar hynny a pharhaodd i annerch ac ymgyrchu am flynyddoedd lawer mewn ardaloedd ledled y wlad a thros y ffin mewn lleoedd fel Prifysgol Lerpwl. Yn gynnar yn 1927 ef oedd yr un oedd gyda H R Jones yn yr ymgyrch arbennig a wnaeth ef yn Llŷn, gan ymweld â phob pentref yn dosbarthu taflenni o dŷ i dŷ yn ystod y dydd a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn yr hwyr. Daeth yn Weinidog i Nefyn yn ddiweddarach.

Bnawn Sul, 3ydd Awst, cefais y fraint o hebrwng y Parch D R Lewis i Ddeiniolen a chofiaf yn dda ei bod yn bnawn tesog a thra llafurus i ŵr fel ef, oedd yn tynnu ymlaen mewn oedran, yn ei wisg drom bregethwrol a'i het galed ddu.

Ond nid oedd am fethu ar un cyfrif wrth gwrs yr achlysur pwysig hwn i gael bod yn bresennol i dalu ei deyrnged a mawrygu ei adnabyddiaeth o H R Jones y bu'n cydweithio mor agos gydag ef yn y dyddiau cynnar hynny o sefydlu Plaid Cymru.

Ac yn ôl J E Jones unwaith eto :

" H.R.Jones yn anad neb a gychwynnodd y Blaid. Ni wn ac ni ŵyr neb pa bryd na pha fodd y sefydlesid plaid genedlaethol Cymru onibai am yr ysfa a'r tân ynddo ef i'w sefydlu."

Lluniau - Nodaf y prif gymeriadau a welir. Diau gall eraill adnabod ambell un yn y cefndir!

**LOWRI PRYS ROBERTS**



Parch J Price Wynne, Miss Eleanor Jones, Miss Priscie Roberts, Dr Kate Roberts, Cyng.Robyn Lewis



Mr Dafydd Wigley AS, Cyng. Dafydd Orwig Jones, Mr Gwynfor Evans AS, Parch Berw Hughes.

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlo**
Ym marwolaeth Tomos Alun Jones, Eithinog, mae'r pentref wedi colli un o'i thrigolion hynaf a fagwyd ac arhosodd yma drwy'i fywyd. Gwelodd lawer i newid a datblygiad yma yn ystod ei oes. Roedd yn un â barn bendant ar sawl agwedd o ddatblygiad. Fe'i prentiswyd fel weldar yng ngwaith McKenzie a Brown, Caernarfon ac yna blynyddoedd o waith yn Lairds, Biwmares. Mae enghreifftiau o'i grefft yn aros ar rai o giatiau a *railings* y pentref. Rhyfedd fydd mynd heibio'r tŷ heb ei weld yn tendio ei ardd llysiau. Roedd yn Gymro i'r carn a'n hiaith yn drysor iddo. Byddai'n hoff o sgwrsio â'r diweddar John Elwyn Hughes, a'r ddau bellach wedi ein gadael o fewn ychydig i'w gilydd. Yr un y crwydro draw i Gefn Gwyn, i roi'r 'byd yn ei le'.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mabel, Gerwyn, Euros, Llion, Gwenan, Emyr a'u teuluoedd yn eu colled.

Ei fro, iaith, dyna frethyn – a roddwyd
yn rhuddin i'r hogyn.
Ei ddoe, i'w gynnal yn ddyn,
hwy seiliau Tomos Alun.

**Cyfarchion Cyntaf**
Dymuna Elizabeth Evans, Pen Parc, ddanfon cyfarchion yr Ŵyl i'w theulu a'i llu ffrindiau. Mae yn gwerthfawrogi yn arw gymwynas llawer a alwodd draw i Ben Parc dros y flwyddyn. Ni fydd yn danfon cardiau cyfarch eto eleni, ond yn ôl ei harfer bydd yn cyflwyno rhodd ariannol i Ysgol Pendalar, Caernarfon.

**Gwyliwch**
Rhoddwyd cryn sylw yn y wasg yn ddiweddar am 'ymwelwyr amheus' yn curo ar ddrysau pentrefi'r fro, neu yn ffonio. Gwnant stori ffug yn dweud eu bod yn cynhyrchioli cwmniau dosbarthu (e.e. Amazon), neu yn cynhyrchioli rhyw elusen neu gilydd. Y rhybudd yw mai sgamwyr medrus yw nifer ohonynt. Eu bwriad, wedi dweud eu stori – fel arfer am gost heb ei dalu – yw ceisio cael eich manylion banc. "Dwi'm mor ddwl a hynny", ddywed y mwyafrif ohonom, ond mae'r cynifer cynyddol sy'n disgyn i'r fagl yn profi i'r gwrthwyneb. Byddwch yn ofalus.

**Oedfaon Rhagfyr**
**Capel Bethel:** 03/12 Parch. Idris Thomas; 10/12 Arwel Williams; 17/12 Donald Pritchard
**Capel Cysegr**: 03/12 Ms Ellie Jones; 10/12 Gweinidog; 17/12 Gwasanaeth Nadolig y Plant; 24/12 Gwasanaeth Carolau; 25/12 Gwasanaeth Cymun Bore'r Nadolig (9.30 am); 31/12 Dim Gwasanaeth
**Capel Saron**: 10/12 Dr. Ian Morris

**Rhoddion Cyngor Cymuned**
Derbyniodd nifer o glybiau a chymdeithasau Bethel gyfraniadau ariannol gan y Cyngor Cymuned eleni. Rhaid pwysleisio bod rhaid gwneud cais ysgrifenedig a chopi o fantolen ariannol gyfredol i dderbyn cyfraniad. Y rhai a elwodd oedd: yr Eisteddfod, Clwb Bro Bethel, Clwb Pêl-droed Ieuenctid, Clwb Ti a Fi, Clwb Bowlio Dan Do a'r Clwb Snwcer. Roedd pob un ohonynt yn derbyn £300. Rhaid ategu at hyn y gost o ail-wella'r arhosfan bysiau yng ngwaelod y pentref.

**Y Caffi Cymunedol**
Gyda hanner tymor yr ysgol yn cyd-redeg â Chalan Gaeaf roedd criw y caffi wedi darparu ambell i weithgaredd wedi ei anelu at y plant. Roedd y gystadleuaeth lliwio ymysg y gweithgareddau mwyaf poblogaidd. Yr enillwyr oedd Deio Rhys ac Elsi Haf Garlick. Gwelwn eu gwaith buddugol a'u gwobrau. Yr oedd cystadleuaeth cerfio pwmpen hefyd.







Yn naturiol bydd y criw gweithgar yn anelu i greu awyrgylch Nadoligaidd inni. Mae'r goeden Nadolig eisoes i fyny. Dyma ddyddiadau dau weithgaredd i'w rhoi yn y dyddiadur.

Ar nos Wener, 8fed Rhagfyr, ceir noson arall boblogaidd gyda Eifion Williams i gychwyn am 6.00 pm. Ar bnawn Llun, 11eg Rhagfyr i ddechrau am 4.00 pm gellir archebu Te Prynhawn gyda Siôn Corn. Y pris fydd £15.

Mae nifer wedi cyfeirio at ddawn Gwen yn gwneud addurniadau gyda blodau, ac fe welir enghreifftiau o'i gwaith yn y caffi. Mae'n arferiad gan nifer bellach i roddi torchau Nadolig ar feddau anwyliaid neu fel addurn ar ddrysau ein tai. Bydd Gwen yn creu torchau Nadoligaidd a gellir eu harchebu yn y Caffi. Y pris yw £17.50.

**Atgoffa**
Bydd rhifyn arall o'r Eco yn ymddangos cyn y Nadolig. Rwy'n gwybod bod rhai ohonoch yn danfon cyfarchion yr Ŵyl drwy gyfrwng tudalenau'r Eco. Os felly, neu unrhyw stori arall, rhaid eu derbyn erbyn DYDD GWENER, 1af RHAGFYR fan bellaf.

**Llwyddiant Hydrefol**
Bu mis Hydref yn fis eisteddfodol lewyrchus i Richard Lloyd Jones. Wedi cipio cadair y Tymbl, Sir Gaerfyrddin ddechrau'r mis, daeth ail gadair yn Eisteddfod y Talwrn, Môn. Gofynnwyd am gerdd ar y testun 'Cynnwrf'. Enillodd dan feirniadaeth Ifan Prys, gydag awdl yn seiliedig ar y Rali dros Annibyniaeth ym Mangor yn ddiweddar.

Ai cof, ai her, Tryweryn
mudo llais wna mwd y llyn;
er cyhwfan slogannau,
ofer iaith ar garreg frau.



**Clwb Bro Bethel**
Ar bnawn 7fed Tachwedd daeth criw niferus draw i Festri'r Cysegr ar gyfer y cyfarfod diweddaraf. Croesawyd pawb gan ein llywydd, Mary Wyn Jones a dymunwyd gwellhad buan i Valmai Owen ac Anne Elis. Rhoddwyd croeso i'r gŵr gwadd, Richard Owen y Consuriwr o Garmel.

Roedd gan Richard ddiddordeb mewn consuriaeth ers yn hogyn ifanc. Byddai yn cyfarfod â'r consuriwr o Gaernarfon, Rovi, tu allan i swyddfa y Caernarfon and Denbigh yn y dre ar fore Sadyrnau i ddysgu elfennau hanfodol 'sleight of hand'. Tra yn y Coleg ym Mangor ddechrau'r chwedegau roedd yn aelod o griw y Noson Lawen ac yn cystadlu fel aelod o dîm Sir Gaernarfon yn y gyfres radio poblogaidd y cyfnod sef Sêr y Siroedd. Treuliodd 20 mlynedd yn dysgu Bioleg yn Derby ac Ynys Manaw cyn symud i Stoke on Trent i redeg busnes gyda'i wraig Sheila. Yn dilyn ei ymddeoliad dychwelodd i fyw i'w ardal enedigol sef Carmel. Mae'n aelod o'r Magic Circle ers 1980 ac wedi diddanu sawl cymdeithas dros y blynyddoedd.



Cawsom brynhawn hwyliog yn ei gwmni. Cafodd rhai o'r aelodau gyfle i'w gynorthwyo gyda'r 'triciau' gan ryfeddu at ei ddawn gyda'r cardiau.

Diolchwyd iddo am bnawn hwyliog gan Lynwen Morris. Diolch i Nan Rowlands ac Eirlys Williams am baratoi'r baned. Enillwyd y raffl gan Eunice Roberts.

Dau ddyddiad i'w cofio ym mis Rhagfyr - dydd Mawrth, 5ed Rhagfyr cynhelir Cinio Nadolig y Clwb yng Nghlwb Golff, Caernarfon. Ar bnawn Mawrth, 12fed Rhagfyr, yn Festri'r Cysegr cynhelir Gwasanaeth Nadoligaidd y Clwb. Bydd yr achlysur dan arweiniad y Parch. Nerys Griffiths a disgyblion o Ysgol Bethel. Edrychwn ymlaen.

# Gwasanaeth Sul y Cofio



Daeth criw sylweddol draw at y gofeb ar libart yr ysgol ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio. Ers sawl blwyddyn bellach mae Dylan Parry, dirprwy-brifathro'r ysgol yn llwyddo i gynllunio cofiant syml ac urddasol i gofio colledion y ddau Ryfel Byd o ardal Bethel. Roedd graen arbennig yng nghyflwyniad y disgyblion. Addas mai y plant oedd yn cymryd y rhan flaenllaw o gyflwyniad hanes a chofiant i golledigion ardal Bethel. Ni allai  rhywun ond cyplysu y datganiadau clir yma o ymbil am heddwch gyda chri boenydiol plant Gaza a'r Iwcrain. Wedi'r dau funud o dawelwch traddodiadol chwaraewyd y Last Post ar y corn gan Efa Morris.

Yna gwahoddwyd cynyrchiolwyr o fudiadau'r ardal i osod eu torchau ar lechen y gofeb. Eleni, cyflwynwyd y torchau gan:
Y Pentref: Edwina Morris
Clwb Bro: Nora Parry
Merched y Wawr: Jennifer Roberts
Neuadd Goffa: Gwen Orlik
Clwb Pel-droed: Max a Tommy Lawson
Ar ran disgyblion yr Ysgol: Lydia ac Oliver
Ar ran teulu Hughie Thomas: Ei ferch Eirian
Cymerwyd rhan ddefosiynol gan ddau o flaenoriaid y Cysegr, Myfanwy Harper a Dewi Rowlands.

**Llongyfarch a Diolch**
Ddechrau'r mis roedd Myrna Owen yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, ac felly hi bellach yw'r hynaf o'r trigolion a fagwyd yn y pentref. Ar hyd y bedlan bu Myrna yn aelod ffyddlon o Gapel Bethel. Am gyfnod hir bu hi yn rhedeg siop yma ym Methel, siop a adnabyddid fel Siop Bob Parry ar un cyfnod. Bu hefyd yn cadw siop yng Nghaernarfon. Eto dyma un a welodd newidiadau mawr. Mae'n siŵr fod sawl atgof wedi dychwelyd o gyrraedd y fangre hon. Llongyfarchiadau Myrna, ac ymlaen i'r 'telegram'.

Hoffai Nora Parry, Wilnor, Stad Tan y Buarth ddiolch i deulu, cyfoedion a ffrindiau am y llu cardiau a galwadau yn ei llongyfarch ar gyrraedd yr oedran 'arbennig' yn ddiweddar.

Yr un yw dymuniad Rita Williams, Elan, ar gyrraedd yr un fangre yn ddiweddar. Diolch i deulu, cyfoedion a ffrindiau.

Dymuna Valmai Owen ddiolch am bob dymuniad da a chefnogaeth teulu a ffrindiau iddi yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Hoffai Sioned Williams a Sioned Parry ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn dilyn llwyddo i redeg hanner marathon Caerdydd i godi arian at Aren Cymru. Codwyd £850. Llongyfarchiadau i'r ddwy!



**Adroddiad o Gyfarfod mis Tachwedd o Ferched y Wawr Bethel**
Croesawyd pawb i'r noson gan ein Llywydd Jen Roberts.

Roedd dipyn o newyddion hapus a dwys i'w rannu gyda'r gangen. Rhannwyd ein llongyfarchion â Gwen a ddaeth yn nain unwaith eto i Myfi Nant, chwaer fach i Guto Nant.

Erbyn hyn rydym yn gwybod mai enw ŵyr bach Wendy ydy Jim Spiro – wedi ei enwi ar ôl ei ddau daid.

Dymunwyd yn dda i Anne Ellis yn dilyn triniaeth. Mae hi'n cryfhau bob dydd ac yn bwriadu bod yn ein cwmni nos Wener ar gyfer y Cwis Hwyl.

Dymunwyd wellhad buan i Falmai hefyd sydd wedi cael triniaeth unwaith eto yn yr ysbyty.

Anfonwyd ein cydymdeimlad at Mabel sydd wedi colli ei gŵr Thomas Alun ac i Enda a gollodd ei chwaer annwyl Ann yn ddiweddar.

Estynwyd ein llongyfarchiadau i aelodau o'r gangen a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth 'Talent Bethel' yn Eisteddfod Bethel ar 14eg Hydref. Roedd Gwenan, Nan, Mair Read, Anita a Rhian yn cymryd rhan mewn sgets a chawsant eu canmol am eu perfformiad. Cawsant y wobr gyntaf a rhodd o £30 ac fe'i cyflwynwyd at gost y bws ar ein taith ddiwedd tymor.

Cyhoeddwyd newyddion da gan Bethan Vaughan Carwright, Panel Cyfryngau Cymru fod ein grŵp wedi casglu 100 credyd ac felly rydym yn derbyn £50 i'n cyfrif banc!

Dymunwyd yn dda i'r ddau dîm o gangen Bethel a fydd yn cymryd rhan yn y Cwis Hwyl nos Wener y 10fed o Dachwedd. Yn nhîm Bethel 1 mae Mair Read, Mair Price a Gwenan Roberts, ac yn nhîm Bethel 2 mae Eirlys Williams, Mary Wyn Jones a Nan Rowlands. Diolchwyd yn fawr iawn hefyd i'r pwyllgor a fydd yn darparu lluniaeth am y noson.

Roedd nifer o hysbysebion i'w hadrodd hefyd am ddigwyddiadau i'w cynnal yn ystod mis Tachwedd.

ch) Mae clwb wythnosol wedi dechrau i rai dros 60 yn Porthi Dre bob dydd Llun rhwng 10.00 am a 4.00 pm. Bydd amrywiaeth o weithgareddau, cyfle i gymdeithasu a chael pryd poeth. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Meira.

Gweithgareddau digidol MYW Cenedlaethol – mae'r nosweithiau canlynol wedi eu trefnu dros fisoedd y Gaeaf.

19eg Rhagfyr – Cracyr Nadolig Pwyllgor Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon:- Cynhelir cwrs ffeltio dan ofal Cath Pari yng Nghanolfan Heneiddio'n Dda, Bontnewydd rhwng 10.00 am ac 1.00 pm o'r gloch. Cost y cwrs yw £10 a gellir prynu cinio am £10. Mae nifer cyfyngedig o lefydd ar ôl. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Mair Read.

Mae baner y rhanbarth wedi dod i'r fei ar ôl sawl blwyddyn o fod ar goll. Mae'r Pwyllgor Celf a Chreff wedi penderfynu adnewyddu'r faner gan fod enwau rhai o'r canghenau sydd arni bellach ddim yn bodoli.

Gofynnir felly i'r canghenau a fyddent yn fodlon helpu gyda'r gwaith brodio.

Ein gwestai fis yma oedd Cwmni Harddwch Tropic. Yn ein harwain trwy'r noson oedd Gwen Orlick (merch leol) a Linda Szekely. Cyflwynwyd stori Tropic drwy gêm a stori a mawr oedd yr hwyl yn ein mysg. Gwobrwyd rhai ag anrheg fach o'u cynnyrch.

Mae cynnyrch Tropic yn gynnyrch gwbl naturiol a dechreuwyd y cwmni gan Susan Ma yn 2007. Mae bellach yn boblogaidd iawn ymysg pobl o bob oedran ac mae wedi ennill sawl gwobr am eu cynnyrch hollol naturiol a chynaliadwy. Bu Gwen yn ein cyflwyno i nifer o bethau sydd ar gael a'u nodweddion a fyddai'n addas ar gyfer pob math o groen. Roedd y merched yn awyddus iawn i gael pori a phrofi'r y cynnyrch ar ddiwedd y noson ac chael cyfle i brynu gan gofio fod y Nadolig yn prysur nesau.

Noson ddifyr iawn a phawb wedi mwynhau!





# Adran yr Urdd

Ar nos Wener, 20fed Hydref cawsom noson llawn hwyl dan ofal Sasha a Max. Diolch iddyn nhw am roi o'u hamser i ddod atom a diolch i'r ysgol am gael cynnal y noson yno.

Y mis cynt (Medi) cafwyd noson o Bingo dan ofal Einir a Gwenno a phawb am y gorau i ennill. Diolch i'r ddwy am roi o'u hamser i ddod i ddiddanu.

Bydd y noson nesaf ar 24ain Tachwedd dan ofal Eleri, mam Gruff fydd yn cynnal noson o Yoga i ni.

Bydd criw ohonom yn mynd i Glanllyn eto'r flwyddyn nesaf ar 7-9fed o Fehefin a phawb yn edrych mlaen yn fawr.









# Te Pnawn a Chân

Mae'r gaeaf a'i dywydd tymhestlog a'i ddyddiau byrion yn ein cadw ni'n swatio yn ein tai rhag yr oerfel – a thra bod hynny'n beth digon braf, mae'n medru bod yn brofiad digon unig hefyd.

Er mwyn tynnu pobl o'u tai a rhoi cyfle iddynt ddod at ei gilydd am damaid o fwyd a 'chydig o adloniant mae cyfres o ddigwyddiadau prynhawn yn dod i'r Sefydliad Coffa yn Llanrug – a'r un cyntaf ar y 15fed o Ragfyr am 3 o'r gloch.



Hawys

Mae'r digwyddiadau wedi eu trefnu gan y Cynghorydd Beca Brown yn sgil derbyn grant sydd yn anelu at leihau unigedd ac ynysigrwydd cymdeithasol mewn cymunedau.

Bydd blas Nadoligaidd i'r digwyddiad cyntaf gyda the prynhawn tymhorol gan Cegin Emma gydag adloniant gan Bedwyr a Hawys Parri.

Mae Bedwyr yn adnabyddus fel rhan o'r grŵp lleisiol TRIO, a oedd yn dathlu deng mlynedd gyda'i gilydd ym mis Gorffennaf. Mae Bedwyr yn edrych ymlaen at gael trafeilio i Ganada yn y flwyddyn newydd i ganu yng Ngŵyl Gymreig Ontario. Erbyn hyn mae Bedwyr yn byw yn Llanrug gyda Hawys ei wraig, ac maent yn rhieni prysur yn magu dau o blant, Macsen a Calan.



Bedwyr

Ers graddio o goleg cerdd y Birmingham Conservatoire, mae Hawys wedi bod yn dysgu piano a llais yn breifat yn ogystal ag yn ysgolion uwchradd yr ardal. Mae hi wedi perfformio mewn nifer o gyngherddau amrywiol gan gynnwys gwneud deuawdau gydag Annette Bryn Parri, ac yn ddiweddar yn cyfeilio i'w chwaer Eiry. Mae hi hefyd yn cyfeilio i elusen Forget Me Not Chorus, rhywbeth sydd yn rhoi pleser mawr iddi. Mae Hawys hefyd yn aelod o gôr siambr Kana sy'n mwynhau gwneud cyngherddau tymhorol.

Bydd Bedwyr a Hawys yn perfformio detholiad o gerddoriaeth Nadoligaidd, ac mae'n bosib y bydd aelod arall o'r teulu yn galw heibio hefyd…

Felly dowch draw i fwynhau'r digwyddiad cyntaf o gyfres 'Te Pnawn a Chân' yn y Sefydliad Coffa, brynhawn Gwener, Rhagfyr 15fed am 3 o'r gloch.

# Ysgol Bethel






**Sul y Cofio**
Yn flynyddol, mae blwyddyn 6 yr ysgol yn cynnal gwasanaeth Sul y Cofio o flaen cofeb yr ysgol. Eto eleni, gyda thorf sylweddol yn bresennol, cyflwynwyd gwasanaeth syml a theimladwy a oedd y arddangos parch tuag at y rhai a gollwyd. Da iawn chi flwyddyn chwech.

**Gwobr Ansawdd Ysgolion Iach**
Ar y 13eg a Dachwedd cyflwynwyd tlws i'r ysgol gan Ms Beca Brown i ddathlu ein bod wedi derbyn marc ansawdd Ysgolion Iach. Mae'r ysgol wedi gweithio'n ddiwyd am ddegawd er mwyn cyrraedd y safon disgwyliedig. Dim ond 15% o ysgolion Cymru sydd wedi derbyn y wobr, felly rydym yn hynod hapus o gyrraedd y nod. Yn ôl yr adroddiad mae'r ysgol yn rhagori yn ein darpariaeth iechyd a lles meddyliol ac emosiynol, darpariaeth corfforol, datblygiad personol a pherthnasoedd a hylendid.

**Cynghorau Ysgol**
Dyma ddau lun i longyfarch disgyblion sydd wedi eu hethol i fod yn rhan o gynghorau'r ysgol eleni. Bydd y disgyblion sydd ynghlwm a'r Cyngor Ysgol yn codi arian at elusennau ac yn anelu i wella adnoddau'r ysgol. Bydd y pwyllgor Eco yn anelu i dderbyn y wobr ansawdd - banner werdd am yr ail dro gan wneud yn saff ein bod ni yma yn yr ysgol yn gwneud ein gorau i hyrwyddo byw yn wyrdd.





SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch
ysbrydoli



Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas
Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# Ysgol Dolbadarn

Dyma griw o ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 o Ysgol Dolbadarn yn plannu bylbiau gyda Mr Eric Baylis a'i wraig. Diolch yn fawr i 'Bentref Taclus Llanberis' am y cyfraniad o adnoddau; compost, potiau a bylbiau. Roedd y plant yn eu helfen.







# PENISARWAUN

**Penblwyddi Arbennig**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Joni, Jonathan Richardson, Brynhyfryd gynt, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn 50 mlwydd oed, oddi wrth bawb ohonom yma ym Mhenisarwaun.

Llongyfarchiadau hefyd i Len Porter ar ddathliad ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed, un sy'n dal yn llawn ffraethineb ac yn hoff o sgwrs. Mwynhewch y dathlu a phob dymuniad da i'r ddegawd nesaf.

**Cofion**

Anfonir ein cofion anwylaf at Myfanwy a Dic, Tegid, Leslie, Dilys a Wil a phawb arall sydd ddim yn dda eu hiechyd.

**Marathon Eryri 2023**

Dymunir diolch i'r criw ffyddlon a ddaeth i gefnogi Marathon Eryri ym Mhen y Pas, fore Sadwrn sych, 28ain Hydref o 9 o'r gloch y bore tan 12 y pnawn. Rydym fel aelodau o Bwyllgor y Neuadd Gymuned yn gwerthfawrogi'r cyfle o gael cymryd rhan i stiwardio i godi arian tuag at ein helusen, 'Rheoli'r Neuadd Gymuned'.

Er gwaethaf tirwedd heriol mae hwyl i'w gael a braint o gael hybu'r rhedwyr dewr wrth redeg y Marathon a rhoi cyfle iddynt ryfeddu at y golygfeydd trawiadol sydd gennym yn Eryri. Roedd dros 2,500 yn cymryd rhan a llongyferchir pob un cystadleuydd.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**

Edrychir ymlaen at gynnal pnawn i ddathlu'r Nadolig ym mis Rhagfyr ar y cyd â phlant yr Ysgol Gymuned. Atgoffir ein cefnogwyr ffyddlon ei bod hi'n amser adnewyddu aelodaeth Clwb Cant Medi 2023 - 2024 am £12. Mae croeso mawr i aelodau newydd. Tynnir Clwb Cant Tachwedd a Rhagfyr amser 'Dathlu'r Nadolig'.

**Cartref Newydd**

Ar ôl 26 mlynedd o fyw yn ein cymuned glos a bywiog yn y pentref anfonir ein dymuniadau gorau i Anna Marie, Tudur, Magi a Moi yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon. Diolch iddynt fel teulu am gefnogi'r holl weithgareddau, a phleser o'r mwyaf oedd rhannu cwmni Magi a Moi yng ngweithgareddau'r Ysgol Sul, yr Eisteddfod Bentref a'r Ysgol Gymuned.


**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Caryl ac Ifan, Cae Corniog Bach, ar enedigaeth Nedw Ifan ar yr 2il o Dachwedd - brawd bach i Lleucu Anest.







**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.
Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis** – rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00PM tan 7.30PM. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** – yn y Ganolfan prynhawn dydd Iau, 2.00PM - 4.00PM pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis** – mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r haf, hyd at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10.00AM o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Capel Coch**
**Hen Stampiau** – Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r Swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y Cyntedd, unrhyw Sul.

**Oedfaon Rhagfyr a Ionawr**
3ydd Rhagfyr, 2.00PM – Parchg. Dafydd Coetmor Williams
10fed Rhagfyr, 10.00AM Gwasanaeth Naw Llith a Charol
17eg Rhagfyr, 10.30AM – Oedfa Deulu – Nadolig
24ain Rhagfyr, 10.00AM – Oedfa, ac yna Paned a Sgwrs
31ain Rhagfyr, 10.00AM - Oedfa

7fed Ionawr, 10.00AM - Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn
14eg Ionawr, 2.00PM - Parchg. Elwyn Richards
21ain Ionawr, 10.00AM - Oedfa
28ain Ionawr, 10.00AM - Parchg. Dafydd Coetmor Williams

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gwasanaethau mis Rhagfyr
3ydd Rhagfyr, 11.00AM - Cymun Bendigaid
10fed Rhagfyr, 11.00AM - Boreol Weddi
17eg Rhagfyr, 11.00AM - Cymun Bendigaid
24ain Rhagfyr, 8.00AM - Cymun Bendigaid, 4.00PM - Gwasanaeth Crud
25ain Rhagfyr, Diwrnod Nadolig, 10.00AM - Cymun Bendigaid
31ain Rhagfyr, 11.00AM - Boreol Weddi
Nos Iau, 30ain Tachwedd rhwng 6 ag 8.00PM – Ffair Nadolig Llanberis
Dydd Sadwrn 2il Rhagfyr rhwng 10.30AM a 12.30AM – Brecwast hefo Santa. I gadw lle ffoniwch 01286 871423 neu 07867 982518.
Dydd Mercher 13eg Rhagfyr rhwng 2.00PM a 7.00PM cynhelir Diwrnod Agored. Bydd cyfle i danio cannwyll er cof am anwyliaid, paned a mins pei ar gael.
Dydd Sul 17eg Rhagfyr, 5.00PM - Cyngerdd Seindorf Arian Deiniolen a Chor Meibion Dyffryn Peris.

**Eglwys St Peris**
Gwasanaethau mis Rhagfyr
3ydd Rhagfyr, 9.30AM – Boreol Weddi
10fed Rhagfyr, 9.30AM - Cymun Bendigaid, 4.00PM - Gwasanaeth Teulu Nadolig gyda swper St Peris i ddilyn yn Ty'n Llan
17eg Rhagfyr, 9.30AM – Boreol Weddi
24ain Rhagfyr, 11.30PM – Cymun Bendigaid
31ain Rhagfyr, 9.30AM – Boreol Weddi

25ain Tachwedd 25, rhwng 10.00AM a 3.00PM cynhelir Ffair Nadolig, mynediad £3 i gynnwys paned a mins pei.








Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
16 Stryd Porth Mawr
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG
(01286) 673535/676040
Ebost: enquiries@perkinsfurniture.co.uk



www.perkinsfurniture.co.uk

# LLANRUG

**Capel y Rhos – Oedfaon mis Rhagfyr**
3ydd a'r 10fed Rhagfyr – Gwasanaeth Nadoligaidd yng ngofal yr aelodau. Bydd cyfle i gael paned a mins pei ar y 10fed.

17eg Rhagfyr – Gwasanaeth Nadolig dan arweiniad ein gweinidog Y Barch. Nerys Griffiths ac fe weinyddir y cymun.
24ain Rhagfyr – Y Parch Geraint Roberts
31ain Rhagfyr – Y Gweinidog

**Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch**
Ar nos Iau, 26ain Hydref daeth arweinydd newydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth i'r Sefydliad Coffa i gyfarfod ag aelodau'r ardal. Yn dilyn sgwrs fywiog a diddorol, lle esboniodd Rhun ei athroniaeth a'i weledigaeth, cafwyd sesiwn holi ac ateb oedd yn fuddiol iawn. Diolch yn fawr i Rhun am roi o'i amser gwerthfawr.

**Hafan Elan**
Bu'r mis diwethaf unwaith eto yn brysur yn Hafan Elan. Trefnwyd cinio yn Table Table Caernarfon, cyn mynd i Galeri i fwynhau cyngerdd rhaglen Tonic gyda'r Welsh Whisperer.

I ddathlu Calan Gaeaf, roedd Beverley y Warden a'i mam wedi paratoi lobsgows blasus a chacen afal a hufen i ddilyn. Gwnaeth rhai ymdrech arbennig i ddod mewn gwisg ffansi. Anodd oedd adnabod ambell un!

Yna, ar gyfer noson Guto Ffowc, cawsom daten drwy'i chroen a dewis ardderchog o lenwad. Y pwdin y tro hwn oedd cacen arbennig am ei bod yn ben-blwydd i Arnold. Mae o'n un sy'n helpu yn gyson yn y Ganolfan drwy fod yng ngofal y Bingo ar fore Mercher. Diolch o galon iddo ac i weddill y pwyllgor sy'n trefnu'r gweithgareddau o fis i fis.

**Gwellhad buan**
Rydym yn anfon ein cofion am wellhad buan i Avril Jones, Stad Minffordd sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Braf clywed ei bod yn gwella ac adref erbyn hyn.

**Nadolig Llawen**
Rydym yn dymuno Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yma'n y pentref, gan obeithio y bydd y gwyliau dros yr Ŵyl yn rhai llawen dros ben. Mawr ddiolch am eich holl gyfraniadau a'ch cefnogaeth dros y flwyddyn aeth heibio, ac edrychwn ymlaen i weld be fydd gan 2024 i'w gynnig.

**Dymuniadau'r ŵyl**
Nadolig Llawen i pawb gan Michael Jones o Treflys Ffordd yr Orsaf, ni fydd yn gyrru cardiau Nadolig y flwyddyn yma ond y bydd yn rhoi cyfraniad tuag at Hafan Elan.

**Merched y Wawr Llanrug**
Oherwydd dyddiad casglu cynnar yr Eco, sef y 10fed Tachwedd, cyflwynir adroddiadau o gyfarfod Tachwedd a Rhagfyr yn y rhifyn nesaf.

Edrychir ymlaen am orig yng nghwmni Dei Tomos, fydd yn sôn am 'Y Nant a'r Betws', nos Fawrth 14eg Tachwedd. Byddwn yn dathlu'r Nadolig ar nos Fawrth 12fed Rhagfyr yn 'Y Wal', Caernarfon.



**Tyfu Nionod**
Mae'r gystadleuaeth tyfu nionod wedi bod yn boblogaidd unwaith eto eleni ymhlith rhai o drigolion Glanffynnon. Mae'r nionod yn cael eu cychwyn gan Colin Jones, a'u rhannu wedyn i bob tŷ yn y stryd isaf. Ar ôl i Colin eu rhannu, mae hi fyny i bob tŷ eu tyfu nhw! Tydy hi fawr o ots be fydd maint y nionod wedi iddyn nhw orffen tyfu. Mae'r stryd yn mwynhau'r her bob blwyddyn ac yn cael lot o hwyl!



## Newid Hinsawdd a Fi

Mae Leisa Gwenllian o Lanrug yn ôl efo cyfres arall ar Radio Cymru am yr amgylchedd - 'Newid Hinsawdd a Fi'.

Yn y gyfres yma mae hi'n teithio o gwmpas y gogledd ddwyrain a Sir Benfro yn cyfarfod rhai o'r bobl arbennig sydd yn rhedeg cynlluniau arloesol sydd yn mynd ati i geisio lliniaru effeithiau newid hinsawdd.

Mae hi'n cwrdd â chriw y Bws Benthyg draw yn Ninbych, sydd yn teithio cymunedau yn cynnig offer i'w logi. Y syniad ydi bod pobol yn cael menthyg offer - fel offer gardd ac ati - yn hytrach na'u prynu. Mae'n cadw at egwyddorion yr economi gylchol sydd yn fuddiol i'r blaned ac yn helpu pobl mewn cyfnod heriol o ran yr argyfwng costau byw. Mae hi hefyd yn ymweld â gwinllan Gymreig ac yn sgwrsio efo Erin Owain, sy'n gweithio fel Asesydd Risg Newid Hinsawdd.

Mae'n gyfres ddifyr sydd dal ar gael ar BBC Sounds i chi ddal i fyny efo hi.

## Swydd newydd: Cydlynydd Gwirfoddolwyr

Os ydych chi'n dymuno ymladd yn erbyn anghyfiawnder prinder a tlodi, a helpu pobl sy mewn argyfwng yn Arfon, rydym eisiau clywed gennych chi.

Mae Banc Bwyd Arfon yn chwilio am Gydlynydd Gwirfoddolwyr i gefnogi ac arfogi'r tîm presennol a recriwtio mwy o bobl i ymuno â ni.

Cyflog: £16,500
Rhan-amser: 24 awr yr wythnos
Dyddiad cau: 16 Rhagfyr 2023

Anfonwch e-bost at manager@arfon.foodbank.org.uk am ragor o fanylion.

Arfon foodbank
Banc Bwyd Arfon

# Trip y Pechaduriaid

Pan glywais fod merch i gyn-weinidog capeli Gorffwysfa a Phreswylfa wedi bod yn ymweld â'r Amgueddfa Lechi ychydig wythnosau'n ôl, daeth nifer o atgofion melys i'm cof.

Y Parchedig J L Mathias oedd y cyn-weinidog, a bu'n gwasanaethu'r ddwy eglwys rhwng 1948 a 1959 cyn, dwi'n tybio, symud yn ôl i'r de.

Yn y cyfnod hwnnw, dim ond ychydig iawn o boblogaeth Llanberis oedd yn berchen modur ac, heblaw am y Trip Ysgol Sul, prin iawn oedd ein hymweliad â glannau môr cyfagos.

Ond daeth tro ar fyd i rai ohonom pan ddechreuwyd rhedeg tripiau Char-a-banc ar brynhawn Sul yn ystod misoedd yr haf i wahanol draethau poblogaidd megis Dinas Dinlle, Benllech, Black Rock a, dwi'n tybio, Nefyn.

Trefnydd y tripiau oedd Mr Robert Owen, Robin Owen Bach i ni, a dwi'n tybio eto, un o fysys Nedw oedd yn ein cludo i'r traethau. Roedd Robin Owen yn gymeriad adnabyddus yn y pentref, fel trefnydd tripiau, fel cystadleuwr yn yr eisteddfodau ac fel rhan o Garnifal y Pentref.

Mor boblogaidd oedd y tripiau fel bod Mr Owen bron wedi medru llenwi bws y trip nesaf cyn i'r trip presennol gyrraedd adref! Roedd fy mrawd, George, yn cynorthwyo Mr Owen trwy gasglu arian ac enwau ar y bws neu yn ein cartref yn Stryd Goodman.

Fel y buasai pobl yn ddisgwyl, doedd y tripiau pnawn Sul ddim yn mynd i lawr yn dda hefo swyddogion a gweinidogion capeli'r ardal, na'r Eglwys. Deallais yn ddiweddarach fod rhai o'r swyddogion yn cyfeirio at ein tripiau fel 'Trip y Pechaduriaid'.

Un pnawn Sadwrn, roedd fy nhad ar ei ben ei hun yn ein cartref yn Stryd Goodman pan gaed cnoc ar y drws cefn. Er mawr syndod iddo, pwy oedd yn sefyll yno ond Mr Mathias, gweinidog Preswylfa a Gorffwysfa. Wedi i'r ddau ohonynt rannu cyfarchion, gofynnodd fy nhad, "Beth fedrai wneud i chwi Mr Mathias?". Atebodd y gweinidog, "Dod yma 'dwi, Mr Roberts, ynglŷn â'r trip i Dinas Dinlle mae eich mab yn ei drefnu am yfory". Yn hollol ddiniwed, atebodd fy nhad, "Mae'n wir ddrwg gen i, Mr Mathias, ond mae'r bws yn llawn"! Chefais i 'rioed wybod beth oedd ymateb Mr Mathias.

Roedd Robin Owen, fel bob tywysydd arall, yn hoff o gerdded i fyny ac i lawr ein bws gan rannu, i'w gynilleidfa gaeth, ei wybodaeth am y pentrefi roeddem yn mynd trwyddynt.

Rwyf yn dal i gofio'i ymadrodd pan oedd ein bws yn mynd heibio Eglwys gyntefig Sant Beuno yn Clynnog, - "mae'r Eglwys hon yn hen, hen iawn, mae rhai yn dweud ei bod yma cyn Crist".

Yn y llun o Garnifal Llanberis sydd yn Sain Ffagan bellach mi welwch Robin Owen Bach yn y goets. George fy mrawd hefo'r Kilt a Gwynfryn Griffiths hefo'r locsyn!


Llun rhai o'r 'Pechaduriaid', gyda mam Ceris Hughes, Ada Roberts (fy Mam), Murial Wyn a'i mam, a Mrs Idris (Bodandrag) yn y cefn – does gen i ddim enw i'r ci!

**Eifion Wyn Roberts**









## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 3ydd o Ragfyr, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00 pm. Bydd Oedfa'r Nadolig yn cael ei chynnal ar y 17eg o Ragfyr i gychwyn am 5,30 pm. Bydd Oedfa Undebol yn cael ei chynnal yng Nghapel Cysegr, Bethel ar ddydd Nadolig, y 25ain o Ragfyr, i gychwyn am 10.00 am – gweinyddir y Cymun yn yr Oedfa hon.



**Marathon Eryri 2023**
Diolch i'r criw fu'n helpu i weini'r lluniaeth i redwyr Marathon Eryri 2023 yn Llanberis ar yr 28ain o Hydref – yn y llun mae Pepi, Chloe, Betsan, Lowri a Gwenno. Rydym fel Cymdeithas yn gwerthfawrogi'r help gan drigolion y pentref a bydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at ein costau blynyddol i dorri gwair y Cae Chwarae a Sgwar y Pentref ynghŷd â goleuadau'r Goeden Nadolig.

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**
Diolch yn fawr i griw y Gymdeithas am osod y goeden Nadolig hyfryd yng nghanol y pentref unwaith eto eleni – mae'n werth ei gweld – cadwch lygad amdani! Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau.

**Diolch**
Dymuna Evena Hughes (7 Erw Wen) ddiolch i'r rheiny o drigolion y pentref a fu o gymorth iddi yn dilyn anffawd gyda'i char yn ddiweddar – diolch am roi o'u amser ac am eu caredigrwydd tuag ati.

**Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro**
Bydd Cyfarfod Blynyddol 2023 yn cael ei gynnal ar nos Lun yr 20fed o Dachwedd yng Nghanolfan y Capel, i gychwyn am 8.00 pm. Croeso cynnes i unrhyw un o drigolion Caeathro, Rhos Bach a'r cyffiniau – byddem yn falch o weld aelodau newydd i'r Pwyllgor ar y noson. Os oes gan unrhyw un eitem i'w hychwanegu i'r agenda, neu unrhyw sylw / ymholiad cyffredinol, cysylltwch â Hefin Hughes, Cefn Y Gôf.




## DEINIOLEN

**Neges gan y Cynghorydd Elfed Williams**
Diolch yn fawr i tîm tacluso Cyngor Gwynedd am eu gwaith yn tacluso o amgylch y gof golofn.

Diolch hefyd i bawb a ddaeth i'r gwasanaeth Sul y Cofio ar fore Sul, Tachwedd 12fed i gofio am aelodau o'r pentref a gollodd eu bywydau. Diolch i'r band am eu cyfraniad teimladwy ac i Mr John Pritchard am arwain y gwasanaeth. Diolch hefyd i'r 13 o fudiadau a osododd dorch er cof ar y gof golofn.

Dymunaf hefyd ddiolch i holl drigolion y ward am eu cefnogaeth eto eleni, gan ddymuno Nadolig dedwydd i chi i gyd, a dymuniadau gorau am y flwyddyn sydd i ddod.

**Merched y Wawr**
**Ein hynt yn ystod yr hydref hyd yma**
Dechreuodd Merched y Wawr Deiniolen ein tymor newydd nos Lun, y 18fed o Fedi yng nghwmni Emyr Gibson, yr hogyn sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn Llanbabs ond sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon. Mae Emyr yn actor ac yn ganwr adnabyddus a soniodd am ei yrfa ar lwyfannau Cymru, ond prif destun ei sgwrs gyda ni oedd ei waith presennol yn gweithio fel diddanwr a therapydd gofal gyda chleifion dementia yng nghartref gofal Bryn Seiont Newydd, Caernarfon. Roedd yn sôn sut y mae cân neu gerddoriaeth arbennig yn gallu bod yn belydryn o oleuni neu'n allwedd i agor rhan o'r cof sydd wedi bod ar glo ers amser. Mae gan Emyr y sgiliau a'r bersonoliaeth i greu awyrgylch ymlaciol braf i roi ymdeimlad o sbri a chynhesrwydd yn y cartref yn sicr, ac roedd clywed ei hanes yn gwneud gwahaniaeth i hwyliau a chodi ysbryd pobl yn achos inni yn Neiniolen fod yn browd iawn ohono!

Fis Hydref daeth Robyn Meredydd o fenter gymunedol Partneriaeth Ogwen atom i adrodd hanes yr holl waith arloesol sy'n digwydd ym Methesda a'r cylch. O redeg cerbydau a faniau trydan at eu defnydd eu hunain a'r gymuned, a chynnal bws cymunedol, i agor canolfannau a thair uned ar stryd fawr Bethesda i wasanaethu'r bobl leol, mae'r gweithgarwch a'r prysurdeb cymunedol sy'n mynd ymlaen o dan arweiniad y Bartneriaeth yn wir yn arbennig ac ysbrydoledig. Roedd y sgwrs yn ddiddorol iawn, diolch Robyn.

Gwnaethom gymryd rhan yng Nghwis Cenedlaethol Merched y Wawr nos Wener, 10fed o Dachwedd, a chafwyd noson braf o gymdeithasu a sgwrsio dros baned gan aelodau cangen Bethel ar ôl chwysu dros y papur cwestiynau. Cymryd rhan sy'n bwysig medda nhw ynte, nid ennill, a llongyfarchiadau mawr i'r tîm buddugol, Rhiwlas, a hynny trwy Gymru gyfan, gwych iawn!

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Glain Hughes, Coed Mawr am gael gradd Dosbarth Cyntaf mewn Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## NANT PERIS

**Eglwys St Peris**
Gwasanaethau mis Rhagfyr
**3ydd** – 9.30AM – Boreol Weddi
**10fed** – 9.30AM – Cymun Bendigaid, 4.00PM – Gwasanaeth Teulu Nadolig gyda swper St Peris i ddilyn yn Ty'n Llan
**17eg** – 9.30AM – Boreol Weddi
**24ain** – 11.30PM – Cymun Bendigaid
**31ain** – 9.30AM – Boreol Weddi

25ain Tachwedd 25, rhwng 10.00AM a 3.00PM cynhelir Ffair Nadolig, mynediad £3 i gynnwys paned a mins pei.

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Gweithdy Cerddoriaeth**
Mae Dosbarth Dinorwig wedi bod yn brysur iawn yn creu cân ar gyfer ein thema newydd 'Arwyr a Dihirod' gyda Huw. Roeddent wrth eu bodd yn dysgu sgiliau chwarae'r ukulele wrth fynd ati i gyfansoddi.









**Cystadleuaeth Pêl-droed Merched yr Urdd**
Perfformiodd y genethod yn wych yn ystod y gystadleuaeth hwyliog. Dyma'r tro cyntaf i nifer ohonynt chwarae ac fe lwyddon nhw i sgorio tair gôl. Ymdrech arbennig genod!




**Sesiynau BMA Karate**
Cawsom sesiynau addysgiadol ac egniol iawn gan Mari o BMA Karate wrth ddysgu am gadw'r corff yn iach. Diolch yn fawr iawn i chi unwaith eto!



**Gŵyl Rygbi Dalgylch Brynrefail**
Cafodd blwyddyn 6 gyfle i gyfarfod a chreu ffrindiau newydd drwy ddatblygu sgiliau rygbi fel rhan o gynllun pontio'r dalgylch. Diolch enfawr i staff a disgyblion Ysgol Brynrefail am gynnal sesiynau cyffrous.




**Aelodau'r Cyngor Ysgol, Eco a Siarter Iaith**
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion sydd wedi cael eu hethol i gynrychioli'r cynghorau flwyddyn yma. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus unwaith eto.








**Dosbarth Meithrin**
Croeso cynnes i ddosbarth meithrin sydd wedi setlo'n arbennig o dda ers iddynt gychwyn ym mis Medi. Mae Miss Nia wrth ei bodd!

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG 19EG MEDI, 2023

1. **DERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd am bresenoldeb yr aelodau. Diolchodd hefyd i Berwyn Parry Jones am drefnu'r *Zoom* ac i'r Cynghorydd Avril Jones am gofnodi.

2. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 15 AWST, 2023**
Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. **UNRHYW FATER YN CODI O GOFNODION CYFARFOD 15 AWST 2023**
Y Cynghorydd Hefin Jones yn gofyn i'r Cygnor roi datganiad i'r wasg fod y Cyngor yn cefnogi'r galw gan Gymdeithas yr Iaith am Ddeddf Eiddo. Y Cadeirydd am ofyn i'r Clerc sut mae'r Cyngor yn sefyll ar hyn.

4. **DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR Y FYNWENT**
Nid oedd y Cadeirydd yn bresennol, 'roedd wedi mynd gyda'r Clerc ar ran y Cyngor i seremoni wobrwyo Mynwent y Flwyddyn. Adroddodd yr Is-gadeirydd mai braf oedd cael y neges fod y fynwent wedi cael gwobr arian, a rhaid llongyfarch y Cadeirydd a'r pwyllgor am eu gwaith caled.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Richard Robinson beth oedd cost cael bin brown ar gyfer gwastraff organig i'r fynwent, gyda'r bwriad o nodi mewn llythrennau breision i ba fin y dylid rhoi'r gwastraff. Trafodwyd hefyd sut i dorri lawr ar ddefnydd o flodau plastig. Bydd y cyngor yn holi pwy sy'n gwerthu blodau di-blasdig, ac yn gadael i'r cyhoedd wybod.
Yr oedd cwyn wedi dod i law ar ôl y toriad gwair diwethaf, a bydd angen trefnu cyfarfod efo'r contractwr mor fuan ag sydd bosib ynglŷn â beth sydd yn cael ei ddefnyddio i chwythu'r gwair oddi ar y cerrig.

Cadarnhawyd nad oes RACC yn bresennol yn y cwt.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

5. **DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR HAMDDEN**
Does dim pwyllgor wedi bod hyd yma a bydd angen trefnu dyddiad yn fuan.

Mae disgwyl i Fenter Fachwen gysylltu ynglŷn â'r goeden goffa yn y parc sglefrio yng Nghwm y Glo.

Mae'r placiau i fyny ar y ddwy gadair eistedd er cof am y Cynghorydd Brian Jones a'r Cynghorydd Charles Jones.

Wedi cael rhestr o lefydd i blannu cennin pedr, hon i'w rhoi i weithwyr Menter Fachwen.

Asesiad risg wedi ei weithredu ar feysydd chwarae'r Cyngor. Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Gwynedd Williams ac Avril Jones ynghyd â'r contractwr trwsio wedi bod o amgylch ar y 4ydd o Fedi. Wedi trafod a gwneud rhestr o beth sydd angen ei wneud.

**GWAITH BRYS** Ffens newydd ym Mhwll Moelyn. Wedi gofyn am bris gan Brunswick, Caernarfon. Angen ei wneud ar frys.

**Cae Nant y Glyn**. Ffens o amgylch y cae wedi disgyn lawr am fod gwair ac yn y blaen wedi tyfu drosti ac mae weiren bigog yn cael ei chuddio.

Tu ôl i'r gôl bellaf mae dibyn a hefyd gwastraff gwair yn cael ei roi yno, sy'n gwneud y lle'n beryglus. Mae angen codi ffens a gwneud lle diogel i nôl y bêl.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

6. **ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN**

7. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
a) Rhif y Cais: C23/0699/23/DT
Estyniad ochr arfaethedig a garej newydd. Hyfrydle, Llanrug.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais: C23/0633/23/DT
Modurdy domestig. Penfro, Ffordd Bryngwyn, Llanrug.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
c) Rhif y Cais: C23/0610/23/DT
Estyniad i dy presennol. Y Bwthyn, Ffordd Pontrug, Pontrug.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
d) Rhif y Cais: C23/0620/23/DT
Modurdy newydd a swyddfa. Tai Newyddion, Ceunant.

Penderfyniad: Heb gael ei drafod. Penderfyniad gan Gyngor Gwynedd wedi cael ei wneud cyn cyfarfod y Cyngor Cymuned.

# Un funud fach ...

## CYFEILLION?

Byd creulon a didrugaredd yn aml ydi'r byd gwleidyddol. Un o'r bobl a brofodd hynny'n fwy na neb y blynyddoedd diwethaf hyn ydi Jeremy Corbyn. Go brin fod cyn arweinydd y Blaid Lafur yn haeddu'r driniaeth annheg a'r erlid a fu arno o'r tu mewn a'r tu allan i'w blaid, yn y Senedd ac yn Wasg, ar y cyfryngau ac ar lawr gwlad. Beth bynnag ei ddiffygion fel arweinydd, mae'n anodd meddwl na chafodd gam mawr ar law gwrthwynebwyr a fynnodd yn fwriadol gamddeall a chamddehongli rhai o'i eiriau. Ond can mil mwy trist nag unrhyw gam a wnaed â Mr Corbyn ydi'r ffaith y gallasai pethau fod yn dra gwahanol yn Israel a Gaza heddiw petai pobl wedi cymryd mwy o sylw o'r hyn y bu o ac eraill yn ei ddeud ers blynyddoedd ynglŷn â'r angen i bobl o bob plaid a pherswâd ddod ynghyd i drafod hynt y Palestiniaid a'u perthynas â'u cymdogion yn Israel. Ni allwn ond dychmygu beth fyddai'r sefyllfa heddiw pe byddai'r byd, flynyddoedd yn ôl, wedi mynnu a hwyluso trafodaeth i geisio datrysiad heddychol a gwâr i'r anghyfiawnder, a diwedd i'r dioddefaint a'r ofnau o bob ochr.


Mae'n rhyfel yn Gaza ers wythnosau erbyn hyn, ond mor drist yw gweld nad oes fawr o neb yn meiddio gofyn a oedd Mr Corbyn yn gywir wedi'r cyfan wrth iddo gyfarfod ag Israeliaid a Phalestiniaid a galw am drafodaeth rhyngddynt. Er mawr gywilydd i senedd a gwasg, mae'r dyn yn parhau'n ddihiryn a chyff gwawd. Yn gynharach heddiw, digwyddais ail wrando arno'n cael ei holi ar *Channel 4 News* yn 2015 ynglŷn â'r defnydd a wnaeth o'r ymadrodd 'our friends from Hezbollah'. Eglurodd iddo wneud hynny ar un o'r achlysuron y cyfarfu â chynrychiolwyr y mudiad hwnnw i drafod sefyllfa argyfyngus y Palestiniaid. Roedd wedi defnyddio'r gair 'cyfeillion' mewn ffordd gyffredinol – y ffordd arferol a chwrtais o gyfeirio at bawb y byddai'n trafod â hwy. Ond yn gwbl ddiamwys hefyd, eglurodd nad oedd yn cytuno o gwbl â'r hyn a wnâi Hezbollah na Hamas. Ond syrthio ar glustiau byddar a wnaeth ei esboniad. Wyth mlynedd yn ddiweddarach, â thros ddeuddeng mil o bobl wedi eu lladd yn Israel a Gaza ers dechrau mis Hydref, mor eithriadol o drist yw cofio'r byddardod hwnnw.

Collfarnwyd Jeremy Corbyn am ei ddefnydd o'r gair 'cyfeillion'. Ond be' petai rhywun yn mynd ymhellach o lawer nag o? Be' wnâi pobl pe byddai rhywun yn galw arnyn nhw, nid yn unig i drafod efo pobl sy'n anghydweld â nhw, ond hefyd i'w caru? Ac nid caru'r bobl hynny'n unig, ond caru hefyd bobl nad ydyn nhw o reidrwydd yn eu hoffi. A be' petai rhywun wedyn yn mynd mor bell â dweud: "Clywsoch fel y dywedwyd, 'Câr dy gymydog, a chasâ dy elyn.' Ond rwyf fi'n dweud wrthych: carwch eich gelynion, a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid" (Mathew 5:43-44). Be' wnâi pobl o beth felly? A be' wnâi pobl â'r sawl a ddywedai beth felly?

Beth bynnag a wnâi eraill, y cwestiwn pwysig i ni ydi: be' wnawn ni o'r fath eiriau? Ac yn bwysicach hyd yn oed: be' wnawn ni o'r Iesu sy'n eu gofyn?

**JOHN PRITCHARD**

# Ar ben arall i’r lein



Dyma rifyn ble rwy’n cael tipyn o seibiant, a thrwy hyn mae’n bleser cyflwyno adroddiad ein cadeirydd am weithgareddau’r flwyddyn.
**Huw Price Hughes**

**Adroddiad y Cadeirydd 2023**

Mae tymor arall ar ddarfod wrth i mi ysgrifennu. Er ein bod yn cael pysgota eog ar y Seiont tan ddiwedd Hydref, mae’n anhebyg iawn bydd pysgod glân yn rhedeg bellach, er bod llifogydd yn yr Alban ar hyn o bryd a dŵr yn ein dyfroedd ni hefyd.

Cafwyd braw cyn ddechrau’r tymor eleni wedi ymddangosiad tyfiant toreithiog o chwyn na’i welwyd o’r blaen yn ymestyn ar wyneb Llyn Padarn ger y maes parcio ym mhentref Llanberis. Daethom a’r mater at sylw Cyfoeth Naturiol Cymru y diwrnod hwnnw ym mis Chwefror. Bellach rydym yn gwybod mai Lagarosiphon Major “Curly Waterweed” sydd yno. Planhigyn estron sydd yn tyfu’n sydyn iawn ac yn fygythiad sylweddol i fywyd ac ecoleg naturiol Llyn Padarn. Araf iawn fu’r ymateb, gydag arolwg tuag at ddiwedd yr haf a dim adroddiad eto. Wrth gwrs yn ystod y cyfnod yma bu miloedd o bobl yn nofio, hwylfyrddio ag ati ar y llyn, gyda’r peryg mawr o’i gario hyd lynnoedd eraill Eryri.

Cafwyd glaw mawr a llifogydd drwy fis Mawrth, a phrin oedd y llwyddiant wrth chwilio am frithyll. Roedd hi’n brafiach ar ddechrau Ebrill, a dalwyd rhai o bysgod Llyn y Dywarchen a fu yno dros y gaeaf. Ond wedyn daeth sbel oerach a gwynt o’r gogledd yn amharu ar bysgota pluen ar Dywarchen a’n llynnoedd eraill. Roedd brithyll wedi eu dal ar Lyn Nantlle ar ddechrau’r tymor, ond doedd y daliadau ddim cystal a’r arfer wrth i’r tymor fynd yn ei flaen, ond daeth un pysgodyn da iawn ym mis Medi.

Roedd hi’n ganol mis Mai cyn iddi hi gynhesu, -ac wedyn cafwyd daliadau da o’r glannau a’r cychod ar Padarn, Cwellyn a Dywarchen. Yn ystod y cyfnod brafia cawsom ddiwrnod ‘Blas ar Bysgota’ yn Rhyd Ddu gyda chriw da, hogiau, merched, hen ac ifanc yn cael cyfle i ddysgu taflu pluen, a mwynhau’r tywydd a’r golygfeydd. Diolch i bawb oedd wedi cefnogi.

Bellach roedd nifer o frithyll wedi dod i law ar yr afon hefyd, a’r tymor wedi dechrau go iawn. Ond y syndod mwyaf oedd bod sewin da yn y Seiont, ac eog glân gloyw wedi ei ddal ar bluen ar 10fed o Fai - y cynharaf i mi gofio yn fy nghyfnod i’n gysylltiedig â hynt a helynt y Seiont. Dangoswyd unwaith eto bod ymdrech a dal ati yn talu - drwy gadw’r bluen yn y dŵr mae dal.

Roedd ein hysgrifennydd yn eithaf tawel ar ddechrau’r tymor, ond bellach gwyddwn ei fod wedi bod yn brysur yn cwblhau gwaith rhai blynyddoedd yn hel a threfnu deunydd am ein hanes. Cyhoeddwyd y llyfryn yn ystod y gwanwyn - yn gyfrol swmpus, yn gorlifo â hanes, atgofion, lluniau a dogfennau. Yn cofnodi ein hanes, y cymeriadau, digwyddiadau, datblygiadau a helyntion ein dyfroedd a’r clwb hyd heddiw, a sôn am bysgod. Trysor ar gyfer y blynyddoedd sydd o’n blaenau.

Roedd y pysgota gwell ar yr afonydd yn cyd-fynd efo llwyddiant aelodau ac ymwelwyr yn Llyn y Dywarchen drwy’r haf. Roedd sbel sych a phoeth ym mis Mehefin, ond pysgota da ar fin nos. Ar wahân i frithyll yr enfys roedd brithyll brown mawr wedi eu dal ar hyd y tymor, mewn cyflwr arbennig fel y gwelwyd ar ein cyfryngau cymdeithasol. Wrth sgwrsio gyda physgotwyr oedd yno efo tocyn dydd roedd hi’n amlwg bod dipyn wedi ein darganfod ar y wê, wedi mynd ati i drefnu tocyn drwy’r “Fishing Passport” ac wedi mwynhau diwrnod o bysgota pleserus yng ngogoniant Eryri.

Bu sawl lli da yng nghanol yr haf - ym mis Gorffennaf roedd cryn gyffro gyda sewin mawr a nifer dda o eogiaid wedi eu dal dros ddwy neu dair wythnos. Braf oedd gweld aelodau cymharol ifanc yn pysgota’n galed ac yn cael llwyddiant. Mae’n amlwg erbyn hyn fod patrwm rhediadau’r pysgod wedi newid - gyda’r daliadau eleni eto’n gynt yn y tymor na’r arfer, ond y trueni mawr yw bod rhediadau Medi a Hydref wedi diflannu’n llwyr, fel sydd wedi digwydd drwy ynysoedd Prydain. Mae bygythiadau lu yn wynebu’r eog. Gobeithiwn bydd y patrwm yn gwella, er ein bod weithiau’n dychmygu na fydd eog yn y Seiont, Gwyrfai na’r Llyfni ar wahân i’r rhai’n syllu’n llonydd arnom o dudalennau llyfr Huw.

Mae nifer y sewin wedi gwella dros y tymhorau diweddar,er na fu gymaint yn pysgota nos ar y Seiont yn ystod yr haf, yn rhannol oherwydd bod y dŵr yn uchel am wythnosau ar y tro tan ddechra Medi. Daeth lli da eto ar ganol y mis ond dim golwg bod pysgod glân newydd wedi rhedeg. A dŵr sydd yn dilyn dŵr ym mis Hydref hefyd. Prin ddeg mlynedd yn ôl roedd antur a chwmni pysgotwyr ar lan yr afon yn dal eog glas ar y bluen hyd ddiwedd yr estyniad yn ran mawr o bleser ein tymor, ond mae pethau wedi newid.

Roedd y dŵr uchel wedi lleihau daliadu yn ystod y nos ar y Llyfni hefyd. Ni chlywais am bysgod o’r Gwyrfai eleni.

Bu’r aelodau’n weithgar ar ein rhan ar wahân i’w hamser efo’r enwair. Mae unrhyw un sydd yn crwydro’r Marddwr, Cwm y Glo wedi gweld hoel gwaith sylweddol gan ddau aelod fu’n atgyweirio’r holl bontydd a chamfeydd ar lan yr afon ac ar gyfer mynediad o’r ffordd, a mae diolch mawr iddynt. Mae’r criw wrthi hefyd yn trefnu a chynnal stocio, torri’r glannau, trin y cychod a phob math o waith arall ar ein rhan drwy’r flwyddyn a diolch yn fawr i bawb sydd wedi bod wrthi.

Daeth ysbaid yn y tywydd mawr dros benwythnos y Ffair Gêm ar stâd y Faenol ac eleni eto daeth nifer dda i ymweld â’n stondin. Bu hwyl a sgwrsio, straeon, diddordeb yn y cawio plu a dipyn o fynd ar y gwersi castio ar lawnt y plas. Mae lluniau ar ein tudalen Facebook. A diolch eto i bawb am gefnogi, yn cynnwys staff y gegin.

Unwaith eto roedd Melin y Cim wedi bod yn brysur ac yn hwb sylweddol i’n cynnal yn ariannol, gyda chymorth y rhai sydd yn trefnu a chymryd rhan yn y cynnal a chadw sydd ynghlwm.

Ym mis Medi daeth criw o Ardal y Llynoedd i bysgota torgoch Llyn Padarn drwy ddefnyddio’u dulliau traddodiadol gyda pholion pob ochr i’r gwch yn dal y lein. Roedd eu crefft yn gweithio cystal yma ac ar eu llynnoedd arferol gyda daliad da. Mae’r torgoch sydd yn cael eu stocio i’r llyn wedi cael torri’r asgell fras. Yn anffodus roedd y rhan fwyaf o’r torgoch a’u dalwyd yn amlwg yn rai wedi eu rhyddhau drwy’r rhaglen stocio. Awgryma hyn bod problemau sylweddol yn y llyn yn parhau i amharu ar genhedlu a thyfiant y stoc brodorol.

Diolchaf ar eich rhan bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau’r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, a pharhau i’n cefnogi.

Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i’r ysgrifenydd am ei waith yn 2023. Ond unwaith eto, fel sydd yn digwydd yn flynyddol, tynnaf eich eich sylw at y ffaith ei fod wedi rhoi degawdau o wasanaeth a’i bod yn amser bellach iddo drosglwyddo’r cyfrifoldeb. Buasai cael aelod yn cynnig helpu yn gyfle i sicrhau llwyddiant y Gymdeithas at y dyfodol.

Ar ran y swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a’ch teuluoedd dros y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd a phob hwyl efo’r enwair yn 2024.

**Dr R.Parry, Cadeirydd**

# RHAGFYR

Mae'r siopau'n llawn nwyddau Nadoligaidd ers mis Medi ac mae hi'n dywyll yn y bore a gyda'r hwyr. Bellach rhoddwyd yr ardd yn ei gwely, ond weithiau, rhwng cawodydd ac os nad oes fawr o wynt mae modd gwneud ambell i dasg o gwmpas y lle.

**Tasgau tu allan (os yw'n ddigon braf)**

Un peth sy'n rhaid ei wneud yw dal ati i fwydo'r adar, gan eu bod nhw'n mynd i ddibynnu ar y ffynhonellau o fwyd rydym yn eu darparu ar eu cyfer. Ceisiwch gadw'r mannau bwydo a'r bwydwyr yn lân a sicrhewch bod dŵr glân i'w gael bob amser (golchi a glanhau popeth tu allan - NID yn y tŷ). Mi ydan ni bellach wedi llwyddo i ddenu'r nico (ymhlith amrywiaeth o adar bach arall) at y bwydwyr sy'n dal calonau hadau blodau haul a'r hadau *niger*, ac yn cael oriau o gysur yn eu gwylio yn bwydo a ffraeo drwy'i gilydd.

Os nad ydach chi eisoes wedi gwneud, mae'n talu ar ei ganfed i chi wasgaru taenfa *(mulch)* rhwng eich planhigion lluosflwydd (*herbaceous perennials*) sydd wedi marw i lawr. Mae'n ffordd dda i amddiffyn y pridd noeth, yn gwella strwythur y pridd a gwarchod ambell i blanhigyn tyner. Gallwch brynu taenfa pwrpasol neu ddefnyddio haen o gompost, deilbridd neu rhisgl pren. Mae unrhyw beth yn well na dim.

Daliwch ati i dynnu pennau'r blodau megis trilliwiau'r gaeaf (*winter pansies*) a syclamen, sydd wedi darfod, fel nad ydynt yn creu hadau a cadw'ch sioe o flodau yn hardd.

Mae traddodiad yn tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gyfri'r blodau yn eich gardd un ai ar ddydd Nadolig neu diwrnod Blwyddyn Newydd. Lapio felly a mentro allan i weld beth sydd, trwy ryw ryfedd wyrth, dal yn ei flodau, a beth sy'n dechrau ymwthio'n gynnar drwy'r pridd. Pam lai? Dechreuwch draddodiad newydd os nad ydach chi eisoes yn gwneud hyn.

**Blodau'r Nadolig**

Mae hi'n braf cael blodau lliwgar yn y tŷ o gwmpas tymor y Nadolig ac mae digon o ddewis yn y canolfanau garddio a'r archfarchnadoedd. Ond dydy rhai ddim yn hawdd i'w cadw'n fyw yn ystod nac yn wir ar ôl yr ŵyl.

***Chrysanthemums***

Arbrawf eleni oedd ceisio tyfu *chrysanthemums*. Bu'n rhaid iddynt fyw yn y sied ganol mis Medi ar ôl iddynt gael eu taflu i'r llawr gan y gwynt sawl gwaith! Ar ôl clirio'r tomatos a'r ciwcymbrau o'r ty gwydr gawson nhw fynd yno, gan nad ydw i'n ffyddiog bydden nhw'n goroesi yma drwy aeaf ar lethrau Moel Rhiwen. Mi ydw i'n ofalus wrth eu dyfrio fodd bynnag, gan eu cadw'n damp yn hytrach na'n sych neu'n soeglyd ac yn agor drws y tŷ gwydr os oes dipyn o haul, a chofio cau'r drws cyn iddi dywyllu! Os nad ydach chi wedi tyfu rhai eleni efallai cewch chi gyfle i drio yn 2024.





**Hyasinth**

Mi fydda i'n tyfu hyasinth bron bob blwyddyn erbyn y Nadolig, i mi fy hun ac fel anrhegion tymhorol i aelodau o'r teulu. Fel arfer mi fyddai'n plannu bylbiau ym mis Medi, a'u tyfu yn y cynhwysydd fydd yn y tŷ dros y Nadolig. Y broblem ydy bod rhai yn tyfu'n gyflymach neu'n arafach ac felly'n barod ar wahanol adegau yn yr un bowlen. Felly eleni mi ydw i wedi rhoi'r cwbl lot mewn un bocs pren mawr, gyda'r bwriad o drosglwyddo y rhai sydd o'r un maint i amrywiol bowliau.



Mi ddylai eich bylbiau fod wedi torri drwy'r pridd bellach, os wnaethoch chi eu plannu nhw nôl ym mis Medi. Os yw blagur y blodau wedi dechrau ffurfio ewch a nhw i mewn i'r tŷ, mewn lle reit oer i ddechrau, cofiwch eu dyfrio ac wrth i'r blodyn a'r dail dyfu, symudwch nhw'n araf i le cynhesach. Os ydynt yn agor yn gyflym, arafwch y tyfiant drwy eu symud yn ôl i le oerach. I'r gwrthwyneb os maen nhw'n araf yn dod yn eu blaen cyflymwch y tyfiant drwy godi'r tymheredd - ychydig - dim gormod neu mi wnawn nhw dyfu'n goesog. Peidiwch a phoeni os na fyddan nhw'n barod erbyn y Nadolig, cewch liw ac arogl hyfryd yn y flwyddyn newydd ar ôl tynnu'r addurniadau i lawr!

**Poinsettia**

Mae'r rhain yn hynod boblogaidd ac i'w cael yn y lliw coch arferol, yn ogystal a lliwiau pinc a gwyn. dydyn nhw ddim yn arbennig o hawdd i'w cadw'n edrach yn hardd, yn enwedig ar ôl misoedd y gaeaf. Cofiwch eu lapio mewn bag neu fagiau wrth eu cludo i'ch tŷ, wnawn nhw ddim goroesi os deimlan nhw'r chwa lleiaf o wynt oer. Am eu bod yn dod o'r trofannau, mae gwres canolog yn eu sychu, felly cadwch nhw'n glir o wresogyddion ond hefyd mae'n gas ganddyn nhw ddrafft!

Mae yna blanhigion sy'n haws i'w tyfu a'u cadw'n iach dros y dathliadau.

**Syclamen**

Mae dau fath o Syclamen, y rhai bach, sy'n tyfu allan yn y goedwig (llysiau'r ddidol) Dwi wedi trio rhai eleni mewn llecyn yn yr ardd lle nad oes fawr ddim arall yn tyfu, ac mi ydw i wedi trio pob math o bethau yno.



Gallwch hefyd dyfu rhai mwy (syclamen Persicum) yn y tŷ fydd yn rhoi lliw ar silff ffenest am wythnosau. Os gofiwch chi eu rhoi nhw allan i orffwys dros fisoedd yr haf, mi gewch flodau bob blwyddyn.

***Azaelea***

Os allwch chi osod un o'r rhain mewn ystafell claear (*cool*) efo digon o olau a'i chadw'n llaith (*humid*) mi gewch bleser o flodau hardd, heb i'r dail ddisgyn! Mi ydw i wedi plannu rhai allan yn yr ardd yn y gwanwyn o bryd i'w gilydd ac maent (weithiau) wedi rhoi pleser am flynyddoedd wedyn.

**Cactws Nadolig**

Mae'r rhain yn hyfryd (bonws ychwanegol yw medru creu planhigion newydd yn eithaf rhwydd drwy osod dail mewn pridd yn y gwanwyn). Ar hyn o bryd mae gen i sawl un pinc acw sy'n dod i'w blodau,jest cyn y Nadolig (pob un wedi dod o'r un planhigyn. Does dim rhaid i chi gael rhai pinc cofiwch, maent i'w cael mewn coch, piws a gwyn hefyd. Gallant fyw am flynyddoedd, yn enwedig mewn ystafell efo digon o olau a heb fod yn rhy boeth a'u rhoi allan mewn lle cysgodol dros fisoedd yr haf.

**COED NADOLIG**

Coeden fyw neu coeden smalio? Yn ogystal â rhai smalio o bob maint a lliw (a'r casgliad yn tyfu bob blwyddyn) mae'n rhaid cael un goeden fyw, ond un heb wreiddiau. Fel arfer mi ydan ni'n prynu un lleol ddechrau Rhagfyr. Y peth callaf yw torri'r bonyn (mae'r gwerthwr yn gwneud hyn i ni) ac yna ei gosod mewn daliwr parpasol a llenwi'r daliwr efo dŵr. Bydd hyn yn help rhag iddi fwrw ei phinau ac na fydd perygl iddi ddisgyn drosodd ar ben y gath neu'r wyrion a wyresau!

Gallwch gael coeden efo gwreiddiau ond mae angen gofal ar rhai o'r fath, rhaid ei chadw mewn lle nad yw'n rhy gynnes a'i dyfrio'n gyson ac yna gofalu amdani tu allan, weddill y flwyddyn, os am ei chael yn y tŷ'r flwyddyn wedyn.

**Traed i fyny**


Does wybod sut dywydd gawn ni ym mis Rhagfyr, oherwydd cynhesu byd eang, gall fod yn wlyb a mwyn, neu'n oer a rhewllyd. Ewch allan i glirio os cewch gyfle ond fel arall mwynhewch fodio'r catalogau hadau. Os ydach chi'n cadw dyddiadur neu beidio, nodwch beth weithiodd a beth doedd ddim cystal, a chofiwch hynny wrth baratoi ar gyfer 2024.

Sortiwch eich hadau. Byddwch yn ddigyfaddawd a thaflwch y rhai hen i'r bin brown - neu fyddwch chi'n fflamio'n y gwnawyn pan fydd eich planhigion ddim yn tyfu. Un hadyn sy'n gweithio orau pan yw'n ffres yw'r pannas…. Go drapia! Efallai dyna pam ches i ddim llwyddiant o gwbl efo pannas eleni. Hadau ffres amdani yn 2024!

Nadolig Llawen i chi i gyd!

***Rhosyn Mynydd***

# Dal i redeg....



**Gartref**
Marathon Eryri oedd y ras fawr aeth â'r sylw y mis diwethaf. Roedd tua dwy fil a hanner wedi ymgynnull yn Llanberis i gychwyn ar yr her o amgylchu'r Wyddfa – nid yn unig ar y ffyrdd, ond ar lonydd garw yng Nghwm Dyli a thros Fwlch y Groes. Bu'r gefnogaeth gan y cyhoedd yn arbennig, a bu'r gefnogaeth gan wahanol grwpiau cymdeithasol – yn stiwardio neu yn y gorsafoedd diod – yn frwdfrydig. Eleni, roedd y tywydd yn garedig, a'r rhedwyr yn datgan fod yr amgylchiadau yn dda iawn ar gyfer rhedeg marathon. Am unwaith, doedd y llethr (llithrig, fel arfer) o Fwlch y Groes i lawr am Lanberis ddim yn creu problemau, er fod ambell redwr yn troedio'n bur ofalus - rhag ofn!

Llanc ifanc dwy ar hugain oed, Marshall Smith o Glwb Ashford enillodd y ras – ei drydedd farathon eleni, a'i drydedd fuddugoliaeth hefyd. Roedd ei amser yn record am y cwrs. Y ferch gyntaf oedd Alaw Evans o Gaerdydd, a gorffennodd hithau'r ras mewn llai na theirawr.

Roedd nifer helaeth o redwyr lleol yn cymryd rhan; rhai ohonynt yn rhedeg marathon am y tro cyntaf – dylai marathon ar y gwastad fod yn eithaf di-drafferth iddynt felly. Y rhedwr lleol cyntaf oedd Hugh Morgan o Fethel, a'r rhedwraig lleol gyntaf oedd Shannon Owen o Lanrug, a hynny yn ei marathon gyntaf erioed – ond roedd wedi cyrraedd yn ôl i Lanrug cyn sylweddoli ei bod wedi ennill y wobr.



Hugh Morgan



Shannon Owen

Rhaid canmol y rhaglen a ddilynodd ar y nos Sul – un o'r goreuon yn hanes teledu'r ras. Roedd yn haeddu mwy o amser er mwyn rhoi sylw i'r rhedwyr nad oedd yn ymgiprys am y gwobrau, ond i gyd yn cystadlu am wahanol resymau personol.

Erbyn diwedd Tachwedd bydd rhai o redwyr y fro wedi teithio i Swydd Caerhirfryn i gystadlu yn Rasys Cyfnewid Lee Mills, sydd wedi datblygu i ddod yn boblogaidd iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae pedwar rhedwr ym mhob tim, a rhaid rhedeg cwrs heriol yn cynnwys ffyrdd gwledig, llwybrau geirwon, chwarel, corsydd a dringfeydd: cymysgfa o rasys traws-gwlad, mynydd a llwybrau. Cyn diwedd Tachwedd roedd eraill o'r fro hefyd yn cystadlu yn Ultra Pen Llŷn, ras cylch 50 milltir o Bwllheli i Bwllheli – ond yn torri ar draws gwlad i Forfa Nefyn a Nant Gwrtheyrn. Mwy o hanes y ddwy ras gobeithio yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

**Dramor**
Yn ystod y mis hefyd cynhaliwyd rasys blynyddol Morbegno yn yr Eidal. Dyma'r dref sydd wedi ei gefeillio â Llanberis, a chlwb rhedeg Morbegno wedi gefeillio â Chlwb Rhedwyr Eryri. Arwel Lewis, Bethel oedd y rhedwr lleol fu'n cystadlu yno.

# Pêl-droed



Nid yn aml y daw adroddiadau am gemau pêl-droed Llanberis a Llanrug, ond mae'n werth adrodd hanes un digwyddiad yn ystod mis Hydref. Ar ddechrau'r mis roedd ail dîm Llanrug yn chware ail dîm Llanberis. Pwy oedd yno'n gwylio ond rheolwr Bae Trearddur, ac ar ddiwedd y gêm fe ddywedodd mai dyma'r ddau dîm salaf iddo eu gweld gydol y tymor. Ddiwedd Hydref, ail dîm Trearddur oedd yr ymwelwyr yn Llanrug, a chawsant grasfa o 5 gol i 0. Rhyw bythefnos yn ddiweddarach roedd ail dîm Llanberis wedi cael gêm gyfartal yn eu herbyn, gyda Trearddur yn achub pwynt gyda gôl yn amser ychwanegol. Ac er fod Trearddur ar frig y gynghrair i ail dimau, nid yw Llanrug ond pwynt o'u hôl gyda tair gêm mewn llaw. A'r wers? Peidiwch agor eich ceg cyn rhoi eich ymennydd mewn gêr.


## Cornel Ddarllen

### Brwydr yr Iaith er 1962

Llyfryn yn trafod 'Tynged yr Iaith' Saunders Lewis. Cyhoeddwyd llyfryn, sy'n rhoi cefndir darlith radio enwog Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith', yn 1962, a hanes y protestio a ddigwyddodd o ganlyniad.

Ieuan Wyn yw'r awdur, ac mae'r llyfryn yn seiliedig ar ddarlith a draddodwyd ganddo yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai y llynedd i gofio 60 mlynedd ers darlledu 'Tynged yr Iaith'.

Mae'r llyfryn yn egluro amgylchiadau traddodi'r ddarlith 'Tynged yr Iaith', yn rhoi braslun o'i chynnwys, ac yn cyflwyno darlun o frwydr yr iaith o'r 1960au hyd at heddiw. Cawn hanes sefydlu Cymdeithas yr Iaith a'r mudiadau iaith eraill – Adfer, Cymuned a Dyfodol i'r Iaith, a'r ymgyrchoedd dros yr iaith yn ystod y cyfnod. Edrychir ar sefyllfa argyfyngus ein hiaith heddiw a'r ymdrechion i'w gwarchod, a thrafodir yr amodau y mae'n rhaid eu creu er mwyn sicrhau ei pharhad a'i ffyniant fel iaith gymunedol.




w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k
ECO'r Wyddfa



Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Cwpan a Thlws Cymru

Mae taith Llanrug a Llanberis yng Nghwpan a Thlws Cymru drosodd am dymor arall.

Cychwynodd y ddau gyda Chwpan Cymru ddiwedd Gorffennaf ar Rownd Ragbrofol Gyntaf. Taith i Ynys Môn i wynebu Amlwch oedd hi i Lanrug. Ond colli o gôl i ddim ar Lôn Bach oedd ei hanes wedi iddynt ildio gôl yn funud olaf. Hynny wedi'r ddau dîm chware dros awr gyda 10 dyn yn dilyn cerdyn coch i olwr Llanrug Dylan Roberts ac ymosodwr Amlwch Joshua Griffiths.

Gêm gartref oedd gan Lanberis yn erbyn Bontnewydd sydd un gynghrair yn is na'r Darans. Cychwynodd Llanberis ar dan gyda *hatrick* i Ifan Mansoor o fewn hanner awr. Daeth dwy gôl arall i Lanberis yn dilyn goliau i rwyd ei hun gan amddiffynwyr Bontnewydd a'r Darans 5-0 ar y blaen. Sgoriodd Bontnewydd dwy gôl i ddod yn ôl i'r gêm gan eu capten Luke Phillips y cyntaf yn dilyn arbediad gwych o'r smotyn gan olwr Llanberis. Ond doedd y tîm cartref heb orffen gan sgorio dwy gôl cyn diwedd y gêm. Yr eilydd Louis Williams yn gwneud hi yn 6 a Tomos Saynor ar 7fed yn y funud olaf. Buddugoliaeth o 7-2 i Lanberis ar wobr gêm oddi cartref yn erbyn Y Felinheli yn y rownd nesaf.

Yn yr ail rownd ragbrofol taith i Gae Seilo i wynebu tîm oedd yn chwarae adran yn uwch na Llanberis yn 3ydd haen pyramid Pêl-droed Cymru. Trio creu sioc oedd y Darans yn lle osgoi fel yn y rownd ragbrofol gyntaf. Aeth Y Felinheli ar y blaen wedi 17 munud gyda Tom Davies yn rhwydo. Er bod y tîm cartref yn creu ond 1 gôl oedd ynddi ar yr egwyl.

Daeth cyfleoedd ar ddechrau'r ail hanner i Lanberis ac wedi awr cyfle gorau'r tîm oddi cartref. Cic gornel Dion Owen yn taro'r postyn pellaf ond y Darans yn methu canfod y rhwyd. Dyblwyd mantais y tim cartref wedi 72 munud er tacl wych gan amddiffyn Llanberis. Yna rhwydodd Y Felinheli am y 3ydd tro cyn y diwedd wedi Llanberis fethu a chlirio'r bêl a'r tîm cartref yn eu cosbi gan ganfod cefn y rhwyd. Llanberis yn colli o 3-0 a thaith y ddau glwb o'r fro drosodd yn rowndiau rhagbrofol Cwpan Cymru.

Draw at Dlws Cymru roedd Llanrug a Llanberis yn osgoi'r rownd gyntaf ac yn ymuno gyda'r gystadleuaeth yn yr ail rownd. Gemau cartref oedd gan y ddau glwb, Llanberis yn erbyn Bethesda Rovers a Llanrug yn erbyn Aberffraw. Roedd hi'n anodd cadw i fyny gyda'r goliau mae'n rhaid dweud. Llanberis yn ennill o 7-0 yn erbyn Bethesda Rovers. Er ar yr hanner ond cic o'r smotyn Dion Owen oedd yn gwahanu'r ddau. Ond yn yr ail hanner roedd Llanberis ar dân *hatrick* i Morgan Roberts a gôl yr un i Gethin Maxwell, Cai Edwards ac Ifan Mansoor a buddugoliaeth gyfforddus i'r Darans.

Tra ar Eithin Duon roedd 8 gôl a'r gêm drosodd erbyn hanner amser. Jamie Mcdaid yn sgorio *hatrick* yn yr hanner cyntaf. Jonny Sadler yn sgorio dwy (1 o'r smotyn) a Llanrug 5-0 ar y blaen ar yr hanner.  Roedd rhaid disgwyl tan 74 munud i Lanrug ganfod y rhwyd yn yr ail hanner Jonny Sadler yn sgorio ei 3ydd ac ail chwaraewr Llanrug i gael *hatrick* yn y gêm. Cyn i Osian Williams sgorio a Mcdaid yn rhwydo ei 4ydd o'r gêm i roi buddugoliaeth o 8-0 i'r cochion.

Yn y 3ydd rownd gemau oddi cartref oedd hi i'r ddau glwb. Taith ar hyd yr arfordir i wynebu Meliden o Gynghrair Dwyrain Arfordir Gogledd Cymru oedd hi i Lanrug. Doedd dim yn gwahanu'r ddau dim ar yr hanner gyda'r gêm yn ddi-sgôr. Ond wedi 56 munud ildiodd Llanrug gydag eilydd ail hanner Meliden Frankie Davies yn rhwydo. Chwarter awr yn ddiweddarach aeth hi yn 2-0 i'r tîm sydd yn ail yn gynghrair y Dwyrain a Llanrug yn methu a dod yn ôl i'r gêm. Daeth taith pencampwyr y Tlws yn 2014 i ben am dymor arall.

Taith i Ynys Môn oedd hi i Lanberis i wynebu Llanfairpwll. Gyda'r clwb o Ynys Môn wedi bod yn y penawdau yn ddiweddar wedi iddynt gael ei noddi gan Brif Gynghrair Sbaen La Liga. Aeth Llanberis ar y blaen wedi chwarter awr gyda gôl gan Gethin Maxwell. Ond wedi hanner awr o'r gêm roedd y Darans ar ei hol hi o 2-1. Daeth y tîm oddi cartref yn ôl yn gyfartal wedi Thomas Collins rwydo ar ddechrau'r ail hanner. Ond sgoriodd Llanfairpwll ddwy o fewn 5 munud i'w gilydd wedi awr o chwarae a Llanberis angen sgorio dwy gôl. Sgoriodd Ifan Mansoor i wneud hi yn 4-3. Ond er i'r tîm cartref chwarae'r chwarter awr ddiwethaf gyda 10 dyn yn dilyn cerdyn coch. Doedd Llanberis methu a chanfod y rhwyd eto i ddod ar gêm yn gyfartal. Llanfairpwll yn curo o 4-3 a thaith Llanberis yn y Tlws yn dod i ben ar Faes Eillian.

Biti i weld taith Llanrug a Llanberis yn dod i bên yng Nghwpan Cymru a Thlws Cymru am y tymor yma. Ond mae canlyniadau'r ddau yn y gynghrair yn edrych yn addawol iawn am weddill y tymor.

**Elgan Rhys Jones**

## Blwyddyn lwyddiannus Osian

Mae blwyddyn y beicio mynydd cystadleuol yn dirwyn i ben, a'r prif gystadlaethau eisoes wedi eu cwblhau. Bu'n flwyddyn hynod lwyddiannus i'r beiciwr lleol Osian Morris o Lanrug. Dyma'r tymor llawn cyntaf iddo gystadlu yn adran y beicwyr iau, a hynny mewn rasys ar i waered yn unig, ac y mae'n dychryn rhywun o weld pa mor gyflym y mae'r beicwyr yn gyrru i lawr gelltydd serth a throellog gyda wyneb garw a charregog iddynt. Mae'n grefft sy'n galw am reolaeth llwyr o'r beic a'r gallu i gadw cyd-bwysedd wrth wynebu'r amrywiol heriau.


Gorffennodd Osian y tymor yn bencampwr iau Cymru a selio'r bencampwriaeth yn y ras olaf ym Mlaenau Ffestiniog drwy ennill y gystadleuaeth a'r unig feiciwr iau i gwblhau'r cwrs mewn llai na thri munud.

Daeth hefyd yn drydydd ym Mhencampwriaeth Prydain, gan gystadlu mor bell a Fort William a Glencoe yn yr Alban. Mewn deuddeg allan o dair ras ar ddeg eleni gorffennodd yn y pump safle uchaf; naw ohonynt yn safleoedd medalau – aur, arian neu efydd, a phedair ohonynt yn gyntaf.

O ganlyniad i'w dymor llwyddiannus mae'n ennill pwyntiau yn system graddio British Cycling – cyfanswm o 830 pwynt sy'n ei osod yn ail orau drwy Brydain.

Yn ystod gwyliau'r haf treuliodd gyfnod gydag un o hyfforddwyr y gamp yng Nghaersws. Mae hefyd yn treulio ei Sadyrnau (os nad yw'n cystadlu) yn derbyn hyfforddiant ar sut i ofalu am ei feic a chael ei drwytho mewn gwybodaeth dechnegol.

Oherwydd ei lwyddiant mae wedi cael gwahoddiad i ymuno â Rhaglen Llysgennad Beicio Ieuenctid Cymru, ac ym mis Tachwedd roedd yn ymuno â llysgenhadon eraill yng Nghasnewydd a chael diwrnod o hyfforddiant yn y velodrome yno.



ISSN 2516-7235